Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Diwydiant Diodydd Cymru



2012

WG14611
ISBN 978 07504 7003 2
© Hawlfraint y Goron 2012

## Rhagair gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd



Mae sector diodydd Cymru'n rhan bwysig o'n diwydiant bwyd ac amaeth, ac mae gan ein brandiau cwrw, seidr, perai, gwin a gwirodydd enw da cynyddol yn rhyngwladol. Mae Llywodraeth Cymru am adeiladu ar y llwyddiant hwn a sicrhau bod gennym gynhyrchwyr a phroseswyr diodydd mwy llwyddiannus fyth yn sector twristiaeth Cymru gan adeiladu diwydiant cryf a phroffidiol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad i gynorthwyo'r diwydiant yn glir trwy helpu i ddatblygu, hyrwyddo a marchnata bwyd a diod o Gymru, gan atgyfnerthu cysylltiadau'r gadwyn gyflenwi lle bo'n briodol; a helpu'r economi i arallgyfeirio a thyfu trwy hyrwyddo cynhyrchion newydd ac arloesol, gwella'r gallu i brosesu a cheisio sicrhau marchnadoedd rhyngwladol newydd.

Ym mis Medi 2011, fi oedd llywydd uwchgynhadledd gyntaf y diwydiant diodydd yn Aberystwyth. Fy nod oedd deall uchelgais y sector a'r posibiliadau o ran twf a gweld sut allai'r Llywodraeth gynorthwyo diwydiant diodydd Cymru'n well. Mae'r uwchgynhadledd wedi bod yn gyfrwng i'r diwydiant ddysgu gan ei gilydd a dod o hyd i ffyrdd o fynd i'r afael â materion allweddol mewn modd cydlynol er mwyn gallu mynd ati i ddatblygu sector diodydd Cymru.

Mae menter datblygu masnach wedi'i datblygu o ganlyniad uniongyrchol i'r uwchgynhadledd honno. Bydd y fenter hon yn darparu arbenigedd penodol i'r diwydiant, fel gwybodaeth am y farchnad, marchnata a brandio ac allforio ymhlith pethau eraill. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn rhoi manylion y fenter hon ac yn nodi meysydd lle gellir manteisio ar gyfleoedd a gwneud gwelliannau ar draws y gadwyn gyflenwi. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr ymchwil ddiweddaraf i'r farchnad a strwythur cyfredol y sector.

Gobeithir y bydd y cynllun gweithredu hwn yn cael ei arwain gan y diwydiant, gan ymateb yn uniongyrchol i bryderon a gofynion y diwydiant.

Wrth gwrs, ein cynllun gweithredu trosfwaol yw Rhaglen Lywodraethu 2011-2016. Mae'n cynrychioli ymrwymiad go iawn i gyflenwi, a gaiff ei fesur gan yr effaith wirioneddol y mae'r llywodraeth yn ei chael ar fywydau pobl. Fel rhan o hyn, rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo cynhyrchwyr, proseswyr a dosbarthwyr bwyd yng Nghymru ac i weithio tuag at gryfhau'r gwaith o gynhyrchu a phrosesu bwyd yng Nghymru, trwy ddatblygu'r holl gadwyn gyflenwi a buddsoddi mewn cynyddu gwerth cynnyrch Cymreig. Mae'r cynllun gweithredu hwn ar gyfer y diwydiant diodydd yn cynrychioli cyfraniad gan y Llywodraeth at yr ymrwymiad hwnnw.

Rwy'n credu bod gan ddiwydiant diodydd Cymru botensial gwych a byddaf yn ymdrechu i gynorthwyo'i ddatblygiad fel y gellir sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy. Er mwyn llwyddo, rhaid i ni barhau i weithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i atebion ymarferol i'r materion rydym ni'n eu hwynebu yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.



**Alun Davies AC**
**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd**

# Cynnwys

Rhagair gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd

| | | |
|---|---|---|
| Pennod 1: | Crynodeb Gweithredol | 1 |
| Pennod 2: | Cefndir a Chyflwyniad – Y Sefyllfa Bresennol yng Nghymru | 4 |
| Pennod 3: | Asesu'r Farchnad | 12 |
| Pennod 4: | Cyfleoedd | 27 |
| Pennod 5: | Camau Gweithredu | 37 |
| Pennod 6: | Gweithredu, Monitro a Gwerthuso | 41 |
| Pennod 7: | Geirfa | 43 |

# Pennod 1 – Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Mae'r cynllun gweithredu hwn ar gyfer Diwydiant Diodydd Cymru'n fan cychwyn proses ymgysylltu hirach. Mae'n ceisio gweithio tuag at ddatblygu sector diodydd cynaliadwy, proffidiol a phroffil uchel ar gyfer Cymru.

Mae'r cynllun gweithredu, a ddatblygwyd mewn ymateb uniongyrchol i anghenion y diwydiant, yn darparu data sylfaenol angenrheidiol ar strwythur cyfredol y sector. Bydd rhan ohono'n mynd i'r afael hefyd â'r camau gweithredu arfaethedig sy'n ymwneud â materion heb eu datganoli, fel trethi, tollau ac isafswm prisiau ar gyfer alcohol. Yn ogystal â hyn, mae'n ceisio cynorthwyo cynhyrchwyr i ddatblygu cynhyrchion newydd, gwella'u sgiliau marchnata a brandio cyfredol a dod o hyd i gyfleoedd allforio posibl.

**Y Sefyllfa Bresennol**

1.0 Mae hwn yn gyfnod anodd i gynhyrchwyr a phroseswyr Cymru. Gyda'r cymorth priodol, a thrwy fabwysiadu dull arloesol a arweinir gan y farchnad, gall cwmnïau sydd â'r archwaeth a'r adnoddau fanteisio ar gyfleoedd i sicrhau twf yn eu busnesau.

Yn ogystal â mynd i'r afael â themâu sy'n berthnasol i'r diwydiant cyfan a rhai sy'n benodol i'r sector, mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn bwriadu creu fframwaith lle gall cynhyrchwyr a phroseswyr diodydd Cymru ffynnu.

1.1 Mae marchnad alcohol y DU yn farchnad fawr iawn ac mae'n werth £32.6 biliwn y flwyddyn[1]. Mae cyfaint yr alcohol a werthir (litrau) yn parhau i ostwng. Mae'r farchnad yn cael ei dominyddu gan frandiau[2], gyda thollau a threthi'n cyfrif am gyfran o werth y farchnad[3].

O'r pedwar sector allweddol (cwrw a lager, seidr a pherai, gwin a gwirodydd/eraill), y sector cwrw a lager yw'r mwyaf o ran gwerth a chyfaint, ond seidr yw'r sector sy'n tyfu gyflymaf o'r pedwar. Mae marchnad alcohol Cymru'n go debyg i weddill y DU, ond mae gostyngiad mwy yng nghyfanswm yr alcohol sy'n cael ei werthu yng Nghymru nag yng ngweddill y DU.

'Brains' yw'r cynhyrchydd unigol mwyaf yng Nghymru ac er mai ychydig o ddata sydd ar gael ar y diwydiant, amcangyfrifir mai Busnesau Bach a Chanolig yw'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr Cymru. Er ei bod hi'n ymddangos bod yna ddigon o gyfleoedd i'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr sicrhau twf yn eu busnes, mae'n bosibl y gallai problemau godi yn y dyfodol yn sgil gormod o fusnesau yn y sector bragu oni bai bod marchnadoedd yn cael eu datblygu y tu allan i Gymru.

---

[1] Ffynhonnell: Kantar, 52 w/d 7 Awst 2011.
[2] Ffynhonnell: Kantar, 52 w/d 7 Awst 2011, ACNielsen 52 w/d 9 Gorffennaf 2011.
[3] Ffynhonnell: Kantar, 52 w/d 7 Awst 2011.

1.2 Mae'r strwythur masnach yn gymhleth. Fel arfer, cyfeirir at y farchnad 'yfed y tu allan i'r cartref' fel "ar-fasnach" (er enghraifft, tafarnau) ac mae "all-fasnach" yn cyfeirio at alcohol a werthir gan siopau, i'w yfed gartref yn aml. Mae nifer y tafarnau sy'n gallu parhau i fasnachu yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni'n dirywio ac mae'r anawsterau wrth geisio gwerthu i dafarnau nad ydynt yn annibynnol yn broblem i lawer o gynhyrchwyr. Mae crynhoad y sianel fanwerthu'n broblem i gynhyrchwyr hefyd, a gyda'r pedair archfarchnad fwyaf yn gyfrifol am 68% o'r nwyddau a brynir, ychydig iawn o gyfleoedd all-fasnach sydd ar gael i gynhyrchwyr sy'n ceisio cynyddu gwerthiant[4].

1.3 Er gwaetha'r heriau hyn, mae gan ddiwydiant diodydd Cymru botensial aruthrol i dyfu yn y dyfodol ac mae yna gyfleoedd di-ri i gynhyrchwyr arloesol o bob maint yng Nghymru, y DU a marchnadoedd rhyngwladol.

1.4 Rhaid i gynhyrchwyr gael mynediad i farchnadoedd os ydynt am lwyddo. Gall y fenter Datblygu Masnach, a ddatblygwyd law yn llaw â'r cynllun gweithredu hwn, helpu cynhyrchwyr i wneud hyn a gwella'u sgiliau mewn meysydd allweddol fel brandio, marchnata ac arloesi. Yn benodol, mae'r sgiliau hyn yn bwysig o ran helpu cynhyrchwyr a phroseswyr i gynyddu gwerthiant.

1.5 Nid oes digon o ddata am gynhyrchwyr na gwybodaeth am y farchnad wedi bod ar gael yn y sector alcohol yng Nghymru hyd yma. Mae'r ymchwil i'r farchnad a wnaed cyn yr uwchgynhadledd diodydd (hydref 2011) ac a ddefnyddiwyd i lywio'r cynllun gweithredu hwn yn rhoi cipolwg ar y diwydiant i Lywodraeth Cymru ac yn nodi meysydd penodol sydd angen eu datblygu. Bydd monitro a gwerthuso'r data a gesglir yn y dyfodol hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o fesur llwyddiant y cynllun gweithredu hwn a'r camau gweithredu sydd ynddo.

1.6 Gall llawer o gynhyrchwyr llai elwa'n sylweddol o gydweithio fwy o fewn y diwydiant, naill ai ar draws pob sector neu o fewn sector arbennig. Gall cymdeithasau masnach a arweinir gan y diwydiant hwyluso cydweithrediad o'r fath, a gall y rhain wneud cyfraniad hanfodol at leihau costau busnes a gwella ansawdd; mae enghreifftiau'n cynnwys hyfforddi, brandio, marchnata a dosbarthu. Cydnabyddir nad cydweithrediad yw'r ateb i bob mater a nodir yn y cynllun gweithredu hwn, a gallai hyn wrthdaro â dull masnachol rhai cynhyrchwyr. Fodd bynnag, mae yna fanteision dros ddatblygu rhwydwaith ffurfiol neu anffurfiol ledled y diwydiant. Gallai rhwydweithiau o'r fath helpu i ddatblygu gwybodaeth ymhlith pobl sy'n gweithio yn y sector a rhoi cyfle i gynhyrchwyr a phroseswyr gael eu clywed gan y Llywodraeth a'i hadrannau polisi.

1.7 Er mwyn datblygu materion heb eu datganoli fel tollau cwrw, gwin a seidr, rhaid i Gymru a Llywodraeth y DU weithio ar draws adrannau. Ni all Gweinidogion Cymru fynd i'r afael â'r materion ehangach hyn eu hunain.

1.8 Mae'n bwysig bod cynhyrchwyr yn ymdrechu i ddarparu gwerth am arian trwy fynd ati'n gyson i gynnig yr ansawdd gorau posibl am y pris a godir. Mae'r tair Canolfan Technoleg Bwyd yng Nghymru ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd,

[4] Ffynhonnell: Kantar, 52 w/d 7 Awst 2011.

Llandysul a Choleg Menai yn Llangefni'n darparu gwasanaethau technegol i ddiwydiant bwyd a diod Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, a byddant yn parhau i wneud cyfraniad pwysig at godi a chynnal ansawdd a safonau technegol.

1.9 Mae yna angen amlwg i wella gallu prosesu diwydiant diodydd Cymru. Gallai hyn ynddo'i hun gyfrannu'n fawr at gynyddu gwerthiant bwyd a diod Cymru ac at fynd i'r afael â rhai o'r materion cyfredol ar draws y gadwyn gyflenwi.

1.10 Mae gan Gymru draddodiad cryf yn y sector diodydd, ac mae enw da'r diwydiant wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf yn sgil lansio cwmnïau newydd, cynhyrchion arloesol a thrwy roi hwb o'r newydd i frandiau sefydledig. Diben y cynllun gweithredu hwn yw darparu fframwaith a fydd yn helpu'r diwydiant i fod yn llwyddiannus yn y dyfodol. Bydd themâu fel cydweithio, gwybodaeth am y farchnad a mynediad i farchnadoedd yn rhan allweddol o weithredu'r cynllun gweithredu, ond yn y pen draw, bydd twf busnesau'n parhau i gael ei lywio gan ddull entrepreneuriaid o weithio a arweinir gan y diwydiant.

# Pennod 2 – Cefndir a Chyflwyniad – Y Sefyllfa Bresennol yng Nghymru

## Trosolwg

2.1 Alcohol yw un o'r marchnadoedd bwyd a diod mwyaf yn y DU ac amcangyfrifir ei bod werth £32.6 biliwn y flwyddyn[5] . Mae'n farchnad fawr yng Nghymru ac yn werth tua £1.8 biliwn y flwyddyn[6]. Er mwyn rhoi maint y farchnad yn ei gyd-destun yn y sector manwerthu, mae defnyddwyr Cymreig yn gwario mwy ar alcohol nag ar gynhyrchion llaeth (£658 miliwn o gymharu â £589 miliwn)[7].

Caiff 200 biliwn litr o alcohol ei yfed yn fyd-eang bob blwyddyn[8] o gymharu â'r 320 miliwn o litrau a yfir ym marchnad Cymru[9]. Mae hyn yn rhoi rhyw syniad o faint o gyfleoedd allforio sydd ar gael i gynhyrchwyr Cymru fanteisio arnynt.

2.2 Yn ogystal â hyn, mae gan y diwydiant alcohol ran fawr i'w chwarae o ran:

- Cyfraniad economaidd cynhyrchwyr Cymru.
- Cyfraniad y sector i'r diwydiannau amaeth, bwyd a thwristiaeth.
- Goblygiadau cymdeithasol y sector (er enghraifft, pwysigrwydd y dafarn yn y gymuned, yn arbennig yn ardaloedd gwledig neu ddifreintiedig Cymru).
- Yr effaith ar iechyd pobl Cymru a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Er nad yw'n fanteisiol i Lywodraeth Cymru'n uniongyrchol, mae'r trethi a'r tollau a godir ar y sector alcohol yn cyfrannu'n sylweddol at refeniw trethi Llywodraeth y DU.

2.3 Er gwaethaf pwysigrwydd y sector alcohol yng Nghymru, mae yna "*brinder ystadegau swyddogol ar nifer y cynhyrchwyr ac ar faint o gynnyrch a gynhyrchir yng Nghymru*"[10]. Mae'r prinder hwn o ddata priodol am y diwydiant yng Nghymru'n broblem o ran mesur cynnydd a datblygiad y sector yn effeithiol.

### Y Sefyllfa Bresennol

2.4 Mae yna amrywiaeth eang o gynhyrchwyr alcohol yng Nghymru sy'n amrywio o ran maint ac uchelgais, ac yn amrywio o frandiau poblogaidd sydd wedi ennill gwobrau i gynhyrchwyr crefft bach sy'n gwerthu i dafarnau lleol ac yn uniongyrchol i ddefnyddwyr mewn gwyliau bwyd a digwyddiadau eraill o'r fath. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cydnabod strwythur ac anghenion amrywiol diwydiant Cymru ac yn ceisio mynd i'r afael â chymaint â phosibl o'r rhain, gan ystyried y bydd gan bob busnes, beth bynnag fo'i faint a'i uchelgais, anghenion amrywiol.

---

[5] ACNielsen, Kantar, 2011.
[6] ACNielsen, Kantar, 2011.
[7] Kantar, 2011.
[8] WHO 2011.
[9] ACNielsen, Kantar, 2011.
[10] Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig – Ymchwiliad i'r Diwydiant Gwin, Cwrw a Seidr yng Nghymru 2010.

2.5 Er nad yw o fewn cylch gwaith y cynllun gweithredu hwn, dylid nodi mai Cymru (Magwyr, Sir Fynwy) yw lleoliad un o'r lliaws o fragdai sy'n eiddo i Anheuser-Busch InBev; bragdy mwyaf y byd sy'n cynhyrchu nifer o ddiodydd brand. Nid oes gan y brandiau hyn unrhyw gysylltiadau Cymreig o ran tarddiad na pherchnogaeth, ond maen nhw'n cyfrannu'n fawr at economi Cymru.

2.6 Gellir rhannu'r diwydiant alcohol yng Nghymru i bedwar sector:

| Sector | Disgrifiad | Amcangyfrif o nifer y cynhyrchwyr yng Nghymru |
|---|---|---|
| **Cwrw a lager** | Yn cynnwys pob math, gan gynnwys cwrw casgen a baril | 40-42[11] |
| **Gwin** | Yn cynnwys coch, gwyn, pinc a pefriol | 17 gwinllan[12] ond dim gwindy |
| **Seidr a Pherai** | Yn cynnwys pob math o seidr a pherai, gan gynnwys rhai crefft a rhai a orffennir yn y botel | Tua 5 cynhyrchydd seidr[13] |
| **Arall** | Yn cynnwys gwirodydd, coctels a gwirodlynnau | 8-10[14] |

2.7 Yn fras, mae yna 4 lefel o gynhyrchwyr yng Nghymru:

- Lefel 1: Gwerthiant cenedlaethol yn y DU.
- Lefel 2: Gwerthiant cenedlaethol yng Nghymru a rhywfaint yn y DU.
- Lefel 3: Gwerthiant rhanbarthol yng Nghymru.
- Lefel 4: Gwerthiant lleol (h.y. o fewn 30 milltir i'r man cynhyrchu).

Mae'n galonogol gweld nad cwmnïau mawr yn unig sy'n gwerthu'n rhyngwladol. Mae cwmnïau o bob lefel, heblaw am lefel 4, yn allforio. Yn ogystal â hyn, mae o leiaf dau fragwr arloesol Cymreig wedi llwyddo i ddosbarthu eu cwrw dan label eu hunain yn genedlaethol trwy siopau mawr.

2.8 Gan yr amcangyfrifir mai Busnesau Bach a Chanolig yw'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr Cymru, gallai fod yn arbennig o fanteisiol i'r diwydiant fabwysiadu dull mwy cydweithredol ar draws y gadwyn gyflenwi, gan alluogi busnesau i rannu adnoddau, arbenigedd a buddsoddiadau marchnata. Mae'r model a roddwyd ar

---

[11] CAMRA.
[12] Cymdeithas Gwinllanoedd y DU.
[13] Cymdeithas Perai a Seidr Cymru.
[14] Amcangyfrifon Levercliff.

waith gan Gymdeithas Perai a Seidr Cymru[15] yn enghraifft dda o sut gall cydweithio fod o fudd i'r diwydiant cyfan.

**Cymdeithas Perai a Seidr Cymru**

Sefydlwyd Cymdeithas Perai a Seidr Cymru yn 2001. Ym mis Tachwedd 2009, derbyniodd y Gymdeithas arian trwy Gynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi, Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig.

Gyda'r arian hwn, mae'r Gymdeithas yn bwriadu cyflwyno'r gweithgareddau prosiect canlynol:

- Darparu cymorth i berchnogion perllannau seidr a pherai ddatblygu dulliau o brosesu ffrwythau perllan gyda gwerth ychwanegol.
- Darparu cymorth technegol, cyngor ac arweiniad ar dyfu a rheoli perllannau, cynaeafu a storio ffrwythau a safonau rheoli ansawdd ar gyfer cynhyrchu a phrosesu ffrwythau.
- Darparu cymorth a gweithgareddau meithrin gallu ymhlith grwpiau o berchnogion perllannau a chynhyrchwyr seidr a pherai er mwyn annog cydweithrediad a/neu arferion gwaith cydweithredol.
- Darparu cymorth i annog perchnogion a thyfwyr perllannau i gael enillion â gwerth ychwanegol trwy amrywiaeth o fentrau marchnata a brandio a fydd yn codi proffil cynhyrchion seidr a pherai Cymreig.

**Heriau Allweddol sy'n Wynebu Cynhyrchwyr**

2.9 Fel y rhan fwyaf o'r marchnadoedd bwyd a diod, mae'r sector alcohol yn un anodd i weithio ynddo, ac mae'r problemau wedi cynyddu i gynhyrchwyr, proseswyr a'r rhai ym maes lletygarwch yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r problemau'n cynnwys:

**Marchnad sy'n Dirywio o ran Maint:**

Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod dynion a menywod wedi bod yn yfed llai o alcohol yr wythnos ar gyfartaledd rhwng 2006-2009. Er na fydd yr ystadegau llinell uchaf hyn yn dangos yfed gormodol ac afiach ymhlith rhai grwpiau o'r boblogaeth, bydd y gostyngiad cyffredinol yng nghyfanswm yr alcohol a yfir yn effeithio ar gynhyrchwyr.

Golyga hyn fod cynhyrchwyr yn gweithredu mewn marchnad sy'n wynebu llai o alw, a bydd mwy o gystadleuaeth i ennill cyfran o farchnad lai o faint yn y DU. Gallai hyn annog cynhyrchwyr Cymreig i ddefnyddio cyfleoedd sy'n ychwanegu gwerth ac i

---

[15] Cymdeithas Perai a Seidr Cymru http://www.welshcider.co.uk/index.php?option=com_frontpage&Itemid=1.

archwilio cyfleoedd i allforio y tu allan i'r DU i farchnadoedd a allai fod yn tyfu'n gyflymach.

***Pwysau'r Dirwasgiad:***

Mae'r dirwasgiad wedi cael cryn effaith ar ymddygiad defnyddwyr. Mae'r pwyslais yn y farchnad alcohol wedi symud o yfed 'y tu allan i'r cartref' i yfed 'yn y cartref'[16]. Yn aml, mae'r gwahaniaeth mewn prisiau rhwng yr Ar-fasnach (tafarnau, bwytai) a'r All-fasnach (manwerthwyr, archfarchnadoedd), yn bwysig tu hwnt. Er enghraifft, gall pris peint o'r lager gorau amrywio o ryw £3.30 yn yr ar-fasnach i oddeutu £1.20 yn yr all-fasnach[17]. Gyda chymaint o wahaniaeth yn y pris, mae'n anochel felly bod llawer o ddefnyddwyr wedi dechrau yfed llai y tu allan i'r cartref, ac mae llawer o dafarnau a bwytai wedi gorfod cau o ganlyniad i hyn.

O ganlyniad i bwysau'r dirwasgiad, mae defnyddwyr hefyd yn mynnu cael gwell gwerth am arian, gan symud i gyflenwyr ar-fasnach rhatach ac, mewn rhai achosion, yn lleihau faint o alcohol y maen nhw'n ei yfed bob wythnos yn gyffredinol, ond gan brynu diodydd â gwerth ychwanegol, fel cwrw casgen. Mae'r pwysau hwn yn arbennig o anodd ar gynhyrchwyr llai o faint sy'n methu sicrhau arbedion maint ac sy'n methu dwyn pwysau digonol ar bartneriaid masnach i leihau effaith pwysau masnachol prisiau is a'r posibilrwydd o lai o gyfaint.

***Mynediad i Farchnadoedd:***

Mae cael mynediad i farchnadoedd yn anodd i lawer o gynhyrchwyr; mae gwaith ymchwil wedi amlygu'r prif faterion canlynol:

- **Tafarnau clwm:** mae bodolaeth tafarnau clwm yn cyfyngu ar nifer y cyflenwyr ar-fasnach posibl i lawer o gynhyrchwyr.
- **Y dirywiad yn nifer y tafarnau sy'n masnachu:** Caeodd 375 o dafarnau yng Nghymru rhwng 2007 a 2010[18]. Gyda llai o dafarnau, mae yna lai o lefydd posibl i gynhyrchwyr werthu iddynt ac mae hyn yn broblem arbennig i fragwyr. Yn ogystal â hyn, ceir y goblygiadau cymdeithasol o golli cyfleuster allweddol mewn rhai cymunedau.
- **Archfarchnadoedd yn hawlio cyfran fawr o'r all-fasnach:** mae'r 4 prif archfarchnad yn gwerthu tua 68% o'r holl fwyd a diod yng Nghymru[19]. Mae bod ar restri'r manwerthwyr hyn yn bwysig i fusnesau sy'n ceisio cynyddu gwerthiant yn y sector manwerthu. Yn anffodus, nid yw cael eich cynnwys ar y rhestri hyn mor hawdd â hynny, ac mae cyflenwi archfarchnadoedd yn dasg sy'n gofyn am gryn ymdrech.
- **Cost dosbarthu:** gall dosbarthu alcohol (yn arbennig cynhyrchion rhatach) fod yn gostus, ac mae llawer o gynhyrchwyr llai dan anfantais o ganlyniad i'r costau anghymesur sy'n gysylltiedig â hyn. Ychydig iawn o

[16] ACNielsen, Kantar, 2011.
[17] Archwiliadau masnach, Tachwedd 2011.
[18] Erthygl ar Achub ein Tafarnau ar wefan Newyddion y BBC 25 Gorffennaf 2011 http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-14275055.
[19] Kantar, 2011.

atebion dosbarthu cost effeithiol sydd ar gael i gynhyrchwyr llai Cymru, ar wahân i gydweithio ar draws y diwydiant er mwyn dod o hyd i rwydweithiau cefnogi posibl.

***Brandio***

Mae gan y farchnad alcohol gyfran uwch o gynnyrch wedi'i frandio nag unrhyw un o'r sectorau bwyd a diod eraill. O ganlyniad, rhaid i gynhyrchwyr Cymru gystadlu ag enwau brand mawr sydd â chyllidebau marchnata sylweddol. Ar silff manwerthwr neu wrth far mewn tafarn gall y defnyddiwr dewis rhwng brand sy'n boblogaidd yn fyd-eang a brand Cymreig sy'n cystadlu â hwnnw.

Er nad yw'n debygol y gallai'r brand Cymreig gystadlu ar wariant marchnata, mae'n bwysig bod y buddsoddiad a wneir ar frandio a marchnata mor effeithiol â phosibl er mwyn apelio at y defnyddiwr. I gynhyrchwyr sy'n ceisio gwerthu y tu allan i Gymru, mae'n hynod bwysig canolbwyntio ymdrechion ar frandio gan y bydd y gystadleuaeth yn fwy brwd ac ni fydd y fantais o "gael eu gwneud yn lleol ac yng Nghymru" yn berthnasol.

Gall delwedd brandiau alcohol Cymreig gyfrannu'n fawr at sut yr edrychir ar fwyd a diod Cymreig ledled y byd. Er yn dybiaeth oddrychol, credir mai'r cynnyrch Cymreig sydd wedi'u brandio'n fwyaf priodol yw'r rhai mwyaf llwyddiannus y tu allan i Gymru[20].

***Ansawdd a Chymorth Technegol***

Nid yw'r rhan fwyaf o gynhyrchion alcohol yn hawdd eu cynhyrchu i safon gyson. O ganlyniad, mae arbenigedd a gwybodaeth dechnegol yn ofynnol yn y rhan fwyaf o'r cwmnïau diodydd mwyaf llwyddiannus. Er bod gan y rhan fwyaf o'r sectorau bwyd yng Nghymru ddigon o adnoddau a chyngor technegol, prin yw'r arbenigedd yng Nghymru ar gyfer sectorau'r diwydiant diodydd.

Gellid darparu ar gyfer y cwmnïau hynny a ystyrir yn gymwys trwy'r Canolfannau Bwyd a gefnogir gan Lywodraeth Cymru[21], ond rhaid ceisio codi ymwybyddiaeth o'r cyfleuster hwn ledled y diwydiant diodydd. Gall cymorth gael ei roi mewn sawl ffordd, trwy *grantiau (os ydyn nhw ar gael ac yn berthnasol),* datblygu cynnyrch newydd a chymorth technegol. Mae ymchwil i'r farchnad ar gael hefyd i gwmnïau sydd eisiau asesu'r farchnad cyn gwneud penderfyniadau strategol neu gynlluniau datblygu.

---

[20] Gweler http://www.walesthebrand.com/CY/Default.aspx.

[21] http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/foodandfisheries/supportforfoodproducers/foodcentres/?lang=cy.

**Cyfleoedd: Tueddiadau Allweddol y Farchnad a Defnyddwyr sy'n Fanteisiol i Gynhyrchwyr Cymru**

2.10 Er gwaethaf amodau anodd y farchnad, mae yna lawer o bosibiliadau ar gael o hyd i gynhyrchwyr Cymru, yng Nghymru a thu hwnt. Gallai nifer o dueddiadau allweddol gynnig manteision i gynhyrchwyr Cymru, gan gynnwys:

***Twf Parhaus Cynhyrchion a Brandiau Lleol***

Er gwaetha globaleiddio cynyddol, gwelwyd cynnydd hefyd yng ngwerthiant cynhyrchion lleol a rhanbarthol. Yn ôl Mintel[22], yr awydd i gael bwyd wedi'i gynhyrchu'n lleol yw'r pedwerydd peth pwysicaf i ddefnyddwyr y DU, gyda marchnadoedd ffermwyr a gwerthiant lleol uniongyrchol yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Yn ogystal â hyn, mae archfarchnadoedd blaenllaw wedi manteisio ar y galw am fwydydd lleol a rhanbarthol trwy ganolbwyntio a chryfhau eu dewis o nwyddau lleol.

Mae'r ysgogiad ar gyfer 'prynu'n lleol' yn graddol newid a chaiff ei ystyried fwyfwy fel dull o gefnogi'r economi leol[23] yn ogystal â cheisio sicrhau gwell ansawdd a rheolaeth dros y broses gynhyrchu.

Rhaid i frandiau lleol gystadlu'n effeithiol o safbwynt gwerth am arian a rhaid cyfiawnhau premiymau pris ar gyfer "bod yn lleol", yn arbennig i ddefnyddwyr sy'n fwy ymwybodol o'u cyllideb. Mae Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020[24] yn ceisio annog y sawl sy'n darparu bwyd a diod i dwristiaeth ddefnyddio cynnyrch mwy lleol ac i wneud yn siŵr eu bod yn hysbysebu'r tarddle fel nodwedd gadarnhaol o'r bwyd a diod a gynigir ganddynt.

***Cyfleoedd Rhyngwladol***

Mae Cymru'n gyfrifol am oddeutu 0.25% yn unig o werthiannau alcohol y byd[25]. Mae rhai cynhyrchwyr Cymreig wedi llwyddo i allforio i farchnadoedd rhyngwladol, ac er nad yw allforio'n hawdd, gall y gwerthiant fod yn llawer uwch na'r gwerthiant domestig. Mae diodydd yn ddelfrydol i'w hallforio gan fod ganddynt oes silff hir. Mae yna ddosbarthwyr sefydledig ar gyfer hyn ac mae yna awydd byd-eang i gael brandiau diodydd rhyngwladol.

***Y galw am Ansawdd a datblygiad y "Connosseur" yn y Farchnad Ddiodydd***

Mae arbenigedd y "connoisseur", sef gwerthfawrogiad a gwybodaeth arbenigol am fwyd (a gwin) o safon, yn dueddiad cynyddol yn y farchnad ddiodydd ac mae hyn yn debygol o barhau. Mae hyn yn debygol o fod yn fuddiol i lawer o gynhyrchwyr

---

[22] *Food for Thought*, Mintel, Mai 2010.
[23] *Food for Thought*, Mintel, Mai 2010.
[24] http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/foodandfisheries/foodandmarketdevelopmentpubs/foodstratdoc/?lang=cy.
[25] Wedi'i amcangyfrif gan ddefnyddio data gan Sefydliad Iechyd y Byd 2011, ACNielsen, Kantar, 2011.

diodydd safonol llai yng Nghymru, gan y bydd defnyddiwr mwy â chwaeth yn barod i dalu'r pris uchaf am frandiau Cymreig unigryw o safon.

***Sianeli Masnach Ar-lein***

Alcohol yw un o'r cynhyrchion bwyd a diod mwyaf addas i'w gwerthu ar-lein gan fod ganddo oes silff hir a phris uchel fesul bocs neu becyn, sy'n golygu bod y costau dosbarthu'n llai o faen tramgwydd na chost dosbarthu llawer o gynhyrchion rhatach. Mae gan y diwydiant gwin nifer o fusnesau ar-lein eisoes ac mae'r cynnydd yn y dull hwn o werthu yn cynnig cyfleoedd i gynhyrchwyr Cymreig.

***Datblygu Cynnyrch Newydd ac Arloesi***

Er ei bod hi'n farchnad fawr a sefydledig, mae arloesedd yn sbardun hanfodol i dwf yn y diwydiant. Fel arfer yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad, gwelir llai o arloesedd er mwyn osgoi camgymeriadau drud, ac mae'n ymddangos mae dyma yw'r achos ar hyn o bryd:

*"Nid wyf wedi gweld unrhyw Ddatblygiadau gwefreiddiol mewn Cynnyrch Newydd yn y categori hwn yn y 18 mis diwethaf",* Cyfarwyddwr Categori Cwrw, Gwin a Gwirodydd Tesco, Gorffennaf 2011.

Mae gan gynhyrchwyr Cymru enw da am arloesi a dylid cefnogi hyn ymhellach er mwyn i'r farchnad dyfu ymhellach.

***Dull Entrepreneuraidd***

Mae'r farchnad alcohol yn gystadleuol tu hwnt ac yn cael ei rheoli gan alw defnyddwyr. Brandiau cryf gan gyflenwyr sy'n rhai byd-eang yn aml sydd i'w gweld fwyaf. Dyma'r cyd-destun y mae'n rhaid i gynhyrchwyr Cymru gystadlu o'i fewn, yng Nghymru a thu hwnt.

Er bod amcanion pob cwmni'n debygol o amrywio, ymddengys bod y rhai mwyaf llwyddiannus (o ran gwerthiant) wedi mabwysiadu dull entrepreneuraidd, sy'n seiliedig ar ddarparu cynnyrch o safon uchel sy'n ateb galw'r farchnad.

**Materion Polisi a Rheoleiddio**

2.11 Caiff y sector alcohol, fel llawer o ddiwydiannau eraill, ei effeithio gan nifer o ffactorau, fel deddfwriaeth a chynllunio, nad ydynt yn ymwneud â'r defnyddiwr na'r farchnad. Efallai nad yw popeth a restrir isod o fewn cwmpas y cynllun gweithredu hwn. Gallai'r ffactorau ychwanegol hyn gynnwys:

- Cynllunio.
- Polisi Materion Gwledig ac Amaethyddiaeth (er enghraifft, Glastir).
- Polisi Iechyd (er enghraifft, isafswm Prisiau ar gyfer Alcohol).

- Deddfwriaeth Llywodraeth y DU (er enghraifft, polisi cystadlu).
- Strwythur trethi a thollau.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r ddau bwynt bwled olaf.

2.12 Yn rhannol o ganlyniad i'r pryderon cynyddol bod yfed gormod o alcohol yn effeithio ar iechyd y defnyddiwr, a chost y gofal iechyd cysylltiedig, mae'n bosibl y bydd deddfwriaeth yn effeithio ar gynhyrchwyr yn y diwydiant diodydd. Ar 1 Hydref 2011, cyflwynwyd Bil Isafswm Prisiau[26] yn yr Alban, ond hyd yma, mae'r cyfyngiadau yng ngweddill y DU yn wirfoddol ac yn cael eu hannog gan y corff masnachol, Grŵp Portman.

[26] http://www.scottish.parliament.uk/parliamentarybusiness/Bills/43354.aspx.

# Pennod 3 – Asesu'r Farchnad

3.1 Rhan bwysig o ddatblygu'r cynllun gweithredu oedd asesu sefyllfa bresennol y farchnad a'r diwydiant. Cefnogwyd yr asesiad hwn trwy:

i Brynu a dadansoddi data am y farchnad.

a. Ar-fasnach (gan gynnwys tafarnau, clybiau a bwytai): data wedi'i ddarparu gan ACNielsen.

b. All-fasnach (siopau manwerthu, gan gynnwys archfarchnadoedd): data wedi'i ddarparu gan Kantar.

ii. Uwchgynhadledd Diwydiant Diodydd Cymru a gynhaliwyd yn hydref 2011.

Mae'r data wedi rhoi dealltwriaeth werthfawr o'r farchnad ac mae Uwchgynhadledd Diodydd Cymru wedi'n galluogi i gynnwys safbwyntiau a chynigion y diwydiant yn y Cynllun Gweithredu hwn.

**Data Allweddol am y Farchnad**

3.2 Mae marchnad diodydd alcohol Cymru'n werth £1.76 biliwn, sef rhyw 5% o gyfanswm marchnad y DU.[27] Er bod gwerth y farchnad yng Nghymru'n cynyddu'n gyflymach na chyfanswm y DU, mae cyfaint yr alcohol yng Nghymru'n gostwng yn gyflymach na gweddill y DU. Gallai nifer o ffactorau fod yn gyfrifol am y newidiadau hyn, gan gynnwys defnyddwyr Cymru'n prynu brandiau drutach, a newid i yfed gwinoedd a gwirodydd yn hytrach na chwrw a lager.


Fodd bynnag, gall data gwerth fod yn gamarweiniol gan ei fod yn gallu cuddio gostyngiad mewn cyfaint. Gallai'r cynnydd a welir mewn gwerth gael ei achosi gan gyfuniad o drethi, prisiau uwch, a newidiadau yn nhueddiadau prynu defnyddwyr.

| Mesur (1) | DU | Cymru |
|---|---|---|
| **Maint y farchnad alcohol – gwerth** | £32.6 biliwn | £1.76 biliwn |
| **Maint y farchnad alcohol – cyfaint** | 5.58 biliwn litr | 320 miliwn litr |
| **Cynnydd mewn gwerth** | 3.8% | 4.1% |
| **Cynnydd mewn cyfaint** | -2.8% | -3.0% |

3.3 Dangosir meintiau cymharol sectorau'r farchnad alcohol isod. Cwrw a lager yw'r sector mwyaf, sef oddeutu 2% o'r gwariant (cyfran o 63% yn ôl cyfaint) ar alcohol yn y DU[28].

[27] Ffynhonnell: Kantar, 52 w/d 7 Awst 2011, ACNielsen 52 w/d 9 Gorffennaf 2011.
[28] Ffynhonnell: Kantar, 52 w/d 7 Awst 2011, ACNielsen 52 w/d 9 Gorffennaf 2011.

## Cymhariaeth o Werth y Farchnad Alcohol – Cymharu Cymru a'r DU





Mae cyfran 'gwariant fesul sector' defnyddwyr Cymru'n debyg i'r DU, ond mae Cymru'n gwario ychydig yn fwy ar wirodydd a gwin, a llai ar gwrw a lager. Gallai hyn fod yn adlewyrchiad i raddau o'r ffaith bod defnyddwyr Cymru'n yfed mwy gartref, sy'n debyg o gynnwys mwy o wirodydd a gwin. Mae defnyddwyr Cymru hefyd yn gwario mwy ar seidr, sy'n adlewyrchu hoffter y rhanbarth o seidr a pherai.

3.4 Mae'r dadansoddiad o'r newidiadau yn nhwf y cyfaint yn dangos bod cyfaint y DU wedi gostwng 2.7% o gymharu â gostyngiad o 4.7% yng Nghymru[29]. Seidr yw'r unig sector yng Nghymru a'r DU sy'n tyfu o ran cyfaint[30]. Mae'r twf hwn yn adlewyrchu'r buddsoddiad mewn arloesedd brandiau (e.e. blasau newydd) a'r diddordeb newydd yn y sector mewn cynhyrchion prif ffrwd a chan grefftwyr.

[29] Ffynhonnell: Kantar, 52 w/d 7 Awst 2011, ACNielsen 52 w/d 9 Gorffennaf 2011.
[30] Ffynhonnell: Kantar, 52 w/d 7 Awst 2011, ACNielsen 52 w/d 9 Gorffennaf 2011.

## Cymhariaeth o Berfformiad Cyfanswm Cyfaint y Farchnad Alcohol (%Newid) – Cymharu Cymru a'r DU




Ni ellir esbonio'r twf sylweddol mewn gwin cyfnerthedig a gwin pefriol yng Nghymru mor hawdd. Efallai ei fod yn ymwneud i raddau â'r ffaith bod y sectorau'n rhai cymharol fach.

3.5 Mae'r dadansoddiad a wnaed o'r data am y farchnad yn amlygu nifer o oblygiadau i gynhyrchwyr Cymru:

- Er bod y farchnad yn sefydledig, mae yna newidiadau arwyddocaol yn digwydd mewn rhai sectorau. Mae'n bwysig bod cynhyrchwyr Cymru'n ymwybodol o'r newidiadau yn y farchnad er mwyn manteisio ar unrhyw gyfleoedd a ddaw.
- Mae seidr, perai a gwin ar gynnydd yng Nghymru ac yn cynnig cyfleoedd da iawn i ddatblygu cynhyrchion newydd arloesol.
- Mae pob un o'r sectorau diodydd unigol o faint arwyddocaol ac mae yna ddigon o le i dyfu yn y dyfodol. Er enghraifft, amcangyfrifir bod y farchnad win yng Nghymru'n werth tua 55 miliwn litr y flwyddyn, a byddai holl gynnyrch gwinllannau Cymru gyda'i gilydd yn debyg o gyfrif am lai na 0.5% o gyfanswm marchnad Cymru[31].

### Strwythur y Diwydiant yng Nghymru

3.6 Er bod y pedwar sector yng Nghymru'n wahanol, mae ganddynt rai themâu strwythurol cyffredin:

i. Amcangyfrifir bod y rhan fwyaf o'r cynhyrchwyr yn rhai bach a chanolig.

---

[31] Amcangyfrifon y diwydiant, Kantar, 52 w/d 7 Awst 2011, ACNielsen 52 w/d 9 Gorffennaf 2011.

ii. Ychydig iawn o gydweithrediad ffurfiol a welir yn y diwydiant (ar wahân i'r diwydiant perai a seidr).

iii. Mae yna un brand ymhell ar y blaen yn nhri o'r pedwar sector yng Nghymru ar hyn o bryd a'r rhain sydd amlycaf o bell ffordd ym marchnadoedd Cymru.

iv. Mae yna gystadleuaeth frwd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

3.7 Amcangyfrifir bod y pedwar sector mewn gwahanol gyfnodau o ran aeddfedrwydd, a dangosir hyn yn y tabl isod:

| | Cwrw a Lager | Perai a Seidr | Gwin | Gwirodydd/Arall |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | Aeddfedu | • Twf cynnar | • Embryonig | • Aeddfedu |
| **Sbardun au twf tebygol** | • Bragwyr rhanbarthol yn ehangu y tu allan i Gymru<br>• Ychydig o fragwyr 'lleol' yn ehangu i ardal 'ranbarthol'<br>• Allforio | • Cynhyrchwyr rhan-amser yn dod yn weithredwyr llawn amser<br>• Cydweithio | • Buddsoddi ar draws y diwydiant<br>• Cynorthwyo cwmnïau unigol sydd â'r potensial gorau fel "cwmnïau disglair"<br>• Cydweithio | • Amrywio yn ôl sector (ee: wisgi, anrhegion)<br>• Prif ddistyllfa wisgi Cymru fydd y sbardun allweddol |

3.8 Mae yna gyfleoedd ym mhob sector i gynhyrchwyr ychwanegol newydd wneud enw i'w hunain, ac i gynhyrchwyr cyfredol gynyddu eu gallu cynhyrchu. Fodd bynnag, mae'r sector bragu mewn perygl o gael ei gyfyngu gan ddiffyg lle yn y dyfodol.

Ychydig iawn o rwystrau mynediad sydd yn y sector cwrw o gymharu â sectorau eraill, lle gall prinder deunydd crai neu gostau dechrau busnes uchel fod yn rhwystr. Gallai problem godi o ran cael gormod o fragwyr wrth i fwy ohonynt fynd ar ôl nifer llai a llai o dafarnau a lle cyfyngedig ar silffoedd siopau. Gwelir tystiolaeth eisoes o fragdai'n cau tra bo eraill yn ffynnu. Gellir lleihau'r broblem o ormodedd posibl trwy fanteisio ar gyfleoedd y tu allan i Gymru, ond, trwy gymharu'r diwydiant bragu gydag yn yr Alban, amlygir y broblem bosibl o ran gormodedd:

- **Cymru:** 32 bragdy ar gyfer poblogaeth o 3 miliwn.
- **Yr Alban:** 29 bragdy ar gyfer poblogaeth o 5.2 miliwn[32].

[32] Ffynhonnell: CAMRA.

Fodd bynnag, yn wahanol i'r Alban, mae gan Gymru fynediad haws i farchnadoedd mwy Lloegr sy'n fantais sylweddol.

**Strwythur Masnachu**

3.9. Mae'r strwythur masnachu ar gyfer diodydd alcohol yn gymhleth ac mae yna lawer o lwybrau gwahanol i'r farchnad. Mae'r mannau gwerthu posibl i gynhyrchwyr diodydd yn cynnwys tafarnau, gwerthu ar-lein, bwytai, archfarchnadoedd, siopau trwyddedig, gwyliau bwyd a diod cenedlaethol ac allforion.

Mae gan bob llwybr posibl i'r farchnad fanteision ac anfanteision, ond ymddengys bod y cynhyrchwyr mwyaf llwyddiannus yn mabwysiadu dull "aml sianel" er mwyn gwerthu cymaint â phosibl a lleihau'r risg o fod yn or-ddibynnol ar ychydig o gwsmeriaid.

Mae'r gadwyn gyflenwi'n arbennig o anodd oherwydd cymhlethdod y diwydiant, y costau cysylltiedig a'r diffyg dosbarthu effeithiol i gynhyrchwyr diodydd Cymru.

3.10 Mae'r all-fasnach yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i ddefnyddwyr newid i yfed gartref. Yn wahanol i'r DU, mae'r cyfaint o alcohol a yfir gartref yng Nghymru'n fwy na'r hyn a yfir y tu allan i'r cartref. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd arbennig yr all-fasnach yng Nghymru.

**Cyfran y Fasnach – Cymharu Ar-fasnach ac All-fasnach**

| Mesur – cyfran gwerth y fasnach | DU | Cymru |
|---|---|---|
| Ar-fasnach | 67.5% | 62.3% |
| All-fasnach | 32.5% | 27.7% |
| Cyfran cyfaint y fasnach | | |
| Ar-fasnach | 53.5% | 46.8% |
| All-fasnach | 46.5% | 53.2% |

[33]

Mae'r ar-fasnach yn arbennig o gymhleth ac yn gryn her i gynhyrchwyr. Amcangyfrifir fod yna tua 7,000 o leoedd ar-fasnach trwyddedig yng Nghymru, sy'n cynnwys oddeutu 2,450 o dafarnau.

Yn gyffredinol, mae yna bum gwahanol drefniant o ran perchnogaeth:


- *Tafarnau annibynnol*: tafarnau sy'n gallu gwerthu diodydd o'u dewis.

[33] Ffynhonnell: Kantar, 52 w/d 7 Awst 2011, ACNielsen 52 w/d 9 Gorffennaf 2011.

- *Tafarnau sy'n eiddo i gwmni tafarnau â thenantiaid/wedi'u prydlesu*: pan fydd tafarn yn eiddo i gwmni tafarn neu gadwyn o dafarnau a gall y tenant fod dan gontract i brynu holl ddiodydd y dafarn neu'r rhan fwyaf ohonynt trwy'r rhiant-gwmni.
- *Tafarnau â rheolwr sy'n eiddo i gwmni tafarnau*: lle mae'r dafarn yn eiddo i gwmni ac yn cael ei rheoli gan weithiwr y cwmni.
- *Tafarnau sy'n eiddo i fragdy â thenantiaid/wedi'u prydlesu*: tafarn sy'n eiddo i fragdy lle mae'r tenant dan gontract i brynu holl ddiodydd y dafarn, neu'r rhan fwyaf ohonynt, trwy'r bragdy.
- *Tafarnau â rheolwr sy'n eiddo i fragdy:* tafarn sy'n eiddo i fragdy ac sy'n cael ei rheoli gan weithiwr y cwmni.

Tafarnau annibynnol yw oddeutu 30% o dafarnau Cymru[34] a'r rhain yw'r mannau gwerthu mwyaf deniadol i gynhyrchwyr annibynnol gan fod ganddynt fwy o reolaeth dros y diodydd maen nhw'n eu gwerthu. Fodd bynnag, gall hyn ynddo'i hun greu mwy o bwysau o ran denu cwsmeriaid trwy'r drysau. Mae Isafswm prisiau alcohol yn ffactor hynod bwysig yn y cyswllt hwn gan na all landlordiaid gystadlu gyda phrisiau archfarchnadoedd.


[34] Ffynhonnell: Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain, amcangyfrifon Levercliff.




Tafarnau Brains yw mwy na 10% o dafarnau Cymru (naill ai fel tafarnau â rheolwr neu fel landlordiaid). Gall cyflenwi'r ar-fasnach fod yn gystadleuol tu hwnt ac mae'n arbennig o anodd i gynhyrchwyr llai sydd ag adnoddau gwerthu cyfyngedig fel arfer, ac sydd felly'n gallu ei chael yn anodd cael mynediad i nifer fawr o fannau gwerthu. Gellir rhoi gwerthu a dosbarthu yn nwylo cwmnïau cyfanwerthu sy'n gwerthu a dosbarthu brandiau cynhyrchwyr. Gall cael mynediad i gyfanwerthwyr a chanolfannau dosbarthu fod yn fanteisiol iawn i gynhyrchwyr llai a helpu eu cynnyrch gyrraedd marchnad ddaearyddol ehangach. Fodd bynnag, gall defnyddio trydydd parti arwain at gostau ychwanegol yn y gadwyn gyflenwi, sy'n gallu rhoi'r cynhyrchydd llai dan anfantais, o gymharu â bragdy sy'n gwerthu ei frandiau ei hun i'w dafarnau ei hun.

3.12 Mae'r strwythur all-fasnach yng Nghymru'n adlewyrchu strwythur y DU gydag archfarchnadoedd cyfarwydd fwyaf blaenllaw yn y farchnad o bell ffordd. Fel y nodwyd eisoes, mae gan y pedair archfarchnad fwyaf gyfran o 68% o gyfanswm gwerthiant bwyd a diod Cymru. Nifer a maint y siopau sy'n bennaf gyfrifol am hyn. Er enghraifft, mae gan siopau disgownt nifer anghymesur o'u siopau yng Nghymru.

## Cymharu cyfrannau manwerthwyr Cymru a'r DU ar gyfer 52 w/d 7 Awst 2011[35]




Mae gan grynhoad y siopau oblygiadau i gynhyrchwyr Cymru sy'n ceisio datblygu brand yn llwyddiannus. Os yw cynhyrchwyr am ganolbwyntio ar y sianel fanwerthu, rhaid iddynt gael eu henw ar restr y mwyafrif o'r manwerthwyr hyn yng Nghymru a/neu ar restr genedlaethol y DU o leiaf dwy o'r archfarchnadoedd a enwir uchod. Mae strategaeth sy'n canolbwyntio ar fanwerthu'n arbennig o beryglus gan ei bod yn gallu arwain cynhyrchwyr i orddibynnu ar ychydig o gwsmeriaid masnachol.

Mae gan yr archfarchnadoedd bolisïau amrywiol ar gynhyrchion rhanbarthol. Mae rhai archfarchnadoedd yn gallu gwerthu cynhyrchion rhanbarthol mewn un neu ddwy siop tra bo eraill yn gorfod gwerthu'r cynhyrchion yn y rhan fwyaf o'r siopau mewn rhanbarth. Yn aml, bydd hi'n arbennig o anodd i gynhyrchwyr llai sydd â gallu cyfyngedig i gyflenwi'r rhai sydd am werthu'r cynhyrchion mewn mwy nag un neu ddwy o siopau lleol.

Bydd y rhan fwyaf o archfarchnadoedd eisiau i'r cynhyrchion gael eu danfon i ganolfan ddosbarthu, bydd ganddynt safonau technegol llym a gofynion masnachol cymhleth. Er y gellid sicrhau gwerthiant da trwy'r archfarchnadoedd, mae yna sawl her yn wynebu rhywun sydd am gyflenwi'r manwerthwyr mawr.

O gymharu â hyn, gallai fod yn haws masnachu gyda manwerthwyr annibynnol, er y gallai'r gwerthiant posibl fod yn llawer is.

---

[35] Ffynhonnell: Kantar, 52 w/d 7 Awst 2011.

## Defnyddwyr

3.13 Gan fod alcohol yn farchnad mor fawr ac amrywiol, nid yw'n syndod bod mwy na 90% o gartrefi yn y DU wedi prynu alcohol gan fanwerthwr yn y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r lefel wedi gostwng o 91.5% o gartrefi i 90.4% yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae hyn wedi cyfrannu at y gostyngiad cyffredinol yn y cyfaint o alcohol a werthwyd.

Mae dadansoddiad o'r grwpiau demograffig gwahanol a'u tueddiadau prynu yn y fasnach All-fasnach yn amlygu'r canlynol:

i. Mae cartrefi mwy o faint, cyfoethog gyda phlant yn fwy tebygol o brynu alcohol, tra mai cartrefi llai cefnog ac iau sydd lleiaf tebygol.

ii. Mae amlder y prynu a'r gwariant cyfartalog yn uwch ymhlith pobl dros 55 oed.

iii. Ar gyfartaledd, mae pob cartref yn gwario £8.86 yr wythnos ar alcohol yn yr All-fasnach.

**Crynodeb o fesurau defnyddwyr allweddol ar gyfer cyfanswm yr alcohol a brynir yn y sianel fanwerthu[36]**


| | Pob Cartref | Cartref 1-2 Aelod | Cartref 3+ Aelod | Dim plant | Gyda Phlant | Gradd Gymdeithasol ABC1 | Gradd Gymdeithasol C2DE | Dan 35 | 35-55 | Dros 55 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % treiddiad | 90.4 | 89.7 | **91.7** | 90.3 | **90.6** | **92.7** | 88 | 87.5 | **92.8** | 89.8 |
| Amlder y prynu | 40 | **41.3** | 37.7 | **42.6** | 33.5 | **40.9** | 39.1 | 24.8 | **43.5** | **44.5** |
| AWP Gwariant | 461.54 | **474.67** | 438.65 | **498.66** | 369.16 | **494.79** | 425.88 | 253.71 | **497.73** | **535.3** |
| AWP Cyfaint | 112.9 | 105.2 | **126.4** | **114.8** | 108.3 | 111.8 | **114.3** | 73.7 | **133.1** | 112.8 |
| AWP Paciau | 89.9 | 89.6 | **90.5** | **95.2** | 76.7 | **97.2** | 82.1 | 52.7 | **101.5** | **97.8** |
| Gwariant fesul taith | 11.54 | 11.49 | **11.63** | **11.71** | 11.01 | **12.1** | 10.9 | 10.22 | 11.43 | **12.04** |
| Cyfaint fesul taith | 2.8 | 2.5 | **3.4** | 2.7 | **3.2** | 2.7 | 2.9 | **3** | **3.1** | 2.5 |
| Paciau fesul taith | 2.2 | 2.2 | **2.4** | 2.2 | **2.3** | **2.4** | 2.1 | 2.1 | **2.3** | 2.2 |
| Pris yn ôl cyfaint | 4.09 | **4.51** | 3.47 | **4.35** | 3.41 | **4.43** | 3.73 | 3.44 | 3.74 | **4.74** |
| Pris fesul pecyn | 5.13 | **5.3** | 4.85 | **5.24** | 4.81 | 5.09 | **5.19** | 4.82 | 4.9 | **5.47** |

Nodyn: Faint a brynir ar gyfartaledd (AWP)

Mae proffil a deinameg defnyddwyr yn amrywio rhwng sectorau gwahanol y farchnad. Mae'r siart isod yn dangos proffil oedran amrywiol yfwyr y gwahanol sectorau. Er enghraifft, mae 80% o'r defnyddwyr dros 55 oed wedi yfed gwin yn y 12 mis cyn Awst 2010, a 30% wedi yfed seidr.

[36] Ffynhonnell: Kantar, 52 w/d 7 Awst 2011.

**Mathau o alcohol a yfwyd yn ôl oedran yn y 12 mis cyn Awst 2010**[37]




3.14 Rhaid i gynhyrchwyr diodydd ddeall proffil ac ymddygiad defnyddwyr. Bydd cynhyrchwyr mwy o faint yn buddsoddi arian sylweddol mewn ymchwil i'r farchnad er mwyn deall y defnyddwyr. Bydd hyn yn llywio penderfyniadau, fel strategaethau marchnata, datblygu cynnyrch newydd ac ymgysylltu masnachol. Heb fynediad i ddata ac ymchwil i'r farchnad, mae cynhyrchwyr llai dan anfantais.

**SWOTs Sector**

3.15 Fel rhan o'r gwaith o asesu'r farchnad, mae dadansoddiadau SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau) wedi'u cwblhau ar gyfer y pedwar sector: cwrw a lager, perai a seidr, gwin a gwirodydd/eraill.

[37] Ffynhonnell: Toluna/Mintel.

### 3.16 Dadansoddiad SWOT – Cwrw a Lager

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| • Rhai bragwyr rhanbarthol cryf<br>• Hunaniaeth genedlaethol gref Gymreig yn darparu marchnad ddomestig ar gyfer brandiau Cymreig<br>• Agos i Loegr, Iwerddon a marchnadoedd mawr y DU (o gymharu â bragwyr yr Alban ac Iwerddon) | • Prinder ffatri/ffatrïoedd potelu hawdd eu cyrraedd mewn rhannau o Gymru yn ychwanegu costau ac o bosibl yn lleihau gwerthiant i'r All-fasnach<br>• Safon amrywiol o un cwrw Cymreig i'r llall<br>• Anodd dosbarthu yng Nghymru a thu allan i Gymru |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| • Gwerthiant y sector cwrw casgen/cwrw iawn yn parhau i dyfu'n gryf<br>• Posibilrwydd o fwy o werthiant trwy'r sector lletygarwch ac All-fasnach yng Nghymru<br>• Gallai fod yna botensial i allforio brandiau cryf (nad sy'n "Gymreig" yn unig)<br>• Bydd y diwydiant yn elwa o gydweithio mwy<br>• Gwell adnoddau technegol yng Nghymru i godi safonau'r cynnyrch<br>• Mae'r farchnad yn croesawu cynnyrch arloesol | • Mae'r all-fasnach a'r marchnadoedd y tu allan i Gymru'n dod yn fwyfwy pwysig wrthi i dafarnau gau<br>• Nid yw pob archfarchnad yn gwerthu detholiad eang o frandiau cwrw Cymreig<br>• Posibilrwydd y bydd gormod o gynhyrchion wrth i fragdai newydd agor<br>• Mae bragwyr yn siroedd Lloegr sydd ar ffin Cymru yn targedu'r farchnad Gymreig ac maen nhw hefyd yn fygythiad i fragwyr Cymru ar y Gororau<br>• Rhaid cael tollau cwrw graddedig er mwyn i fragwyr llai lwyddo |

### 3.17 Dadansoddiad SWOT – Seidr a Pherai

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| • Mae gwerthiant y sector seidr a pherai'n parhau i dyfu'n gryf<br>• Bydd ennill statws Enw Tarddiad Gwarchodedig yn cryfhau delwedd y diwydiant Cymreig<br>• Mae'r diwydiant eisoes yn gweld manteision cydweithio (e.e. Cymdeithas Perai a Seidr Cymru (WPCS))<br>• Agos i farchnadoedd seidr a pherai cryf (y Gororau a De-orllewin Lloegr) | • Ychydig iawn o gynhyrchwyr masnachol<br>• Ychydig iawn o ddosbarthu masnachol gan y rhan fwyaf o frandiau Cymru<br>• Mae angen mynd i'r afael â sgiliau marchnata a brandio ledled y diwydiant<br>• Gall safon y cynnyrch fod yn anghyson<br>• Ychydig iawn o seidrau "3-5% alcohol yn ôl cyfaint (ABV) " o Gymru |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| • Mae angen datblygu'r farchnad yn effeithiol er mwyn sicrhau bod y farchnad yn ddigon mawr i ymdopi â mwy o gynhyrchwyr masnachol llawn amser<br>• Bydd yna gyfleoedd i werthu brandiau cryf (nad sy'n "Gymreig" yn unig) y tu allan i Gymru<br>• Manteisio ar statws Enw Tarddiad Gwarchodedig<br>• Datblygu cynnyrch sy'n apelio at yr yfwr mwy prif ffrwd | • Gallai prinder perllannau yng Nghymru gyfyngu gallu'r diwydiant Cymreig<br>• Gallai bylchau ariannu posibl i sefydliadau fel Cymdeithas Perai a Seidr Cymru rwystro twf y diwydiant yn y dyfodol<br>• Dim ond un cynhyrchydd sy'n amlwg ym marchnad Cymru ar hyn o bryd<br>• Nid yw pob brand o seidr "Cymreig" yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru ond maen nhw'n cymryd gwerthiant oddi ar gynhyrchwyr Cymreig |

### 3.18 Dadansoddiad SWOT – Gwin

<table>
<tr>
<td>

**Cryfderau**

- Agos i Loegr a marchnadoedd mawr
- Mae rhai ardaloedd yng Nghymru’n berffaith ar gyfer cynhyrchu gwin
- Mae mwy a mwy o win yn cael ei yfed yng Nghymru
- Mae’r hunaniaeth gref Gymreig yn darparu marchnad ddomestig ar gyfer cynhyrchion Cymreig, gan gynnwys gwin

</td>
<td>

**Gwendidau**

- Gallu cyfyngedig ar hyn o bryd
- Diffyg gwybodaeth am ansawdd gwinoedd Cymru a diffyg gwerth am arian
- Mae’r dosbarthu’n dameidiog ar draws pob sianel o’r farchnad
- Nid oes yna windy yng Nghymru ac mae’n anodd i gynhyrchwyr reoli’r ansawdd
- Diffyg ymwybyddiaeth o winoedd Cymru
- Braidd dim cydweithio rhwng cynhyrchwyr Cymru o gymharu â’r sectorau alcohol eraill

</td>
</tr>
<tr>
<td>

**Cyfleoedd**

- Mwy o allu cynhyrchu a phrosesu trwy ddatblygu mwy o winllannau a/neu windy yng Nghymru
- Cynyddu dosbarthiad gwin Cymreig yn sylweddol yn yr All-fasnach
- Datblygu cynnyrch newydd (e.e. llai o alcohol, datblygu gwin coch a gwin pefriol)
- Canolbwyntio mwy ar winoedd Chardonnay, Pinot Noir a Bacchus
- Byddai cydweithrediad yn y diwydiant yn helpu i wella ansawdd, dosbarthiad a phroffil gwinoedd Cymreig

</td>
<td>

**Bygythiadau**

- Ychydig iawn o archfarchnadoedd sy’n cefnogi gwin Cymreig
- Mae gwinllannau Lloegr yn targedu ac yn llawer mwy cyffredin yn y farchnad Gymreig

</td>
</tr>
</table>

### 3.19 Dadansoddiad SWOT – y Sector Gwirodydd

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
| --- | --- |
| • Mae gan y sector frand wisgi cryf sydd wedi'i hen ymsefydlu.<br>• Mae'r brand wisgi sefydledig wedi manteisio ar y fasnach allforio ac wedi sefydlu presenoldeb brand Cymreig y tu allan i Gymru<br>• Detholiad diddorol o anrhegion gan gynhyrchwyr llai o faint | • Mae'r mwyafrif o'r cynhyrchwyr yn gymharol fach neu heb ddigon o adnoddau<br>• Mae angen buddsoddiad cychwynnol sylweddol i sefydlu busnes heb elw sydyn<br>• Mae rhai'n gynhyrchwyr fferm felly nid yw safon y cynnyrch yn hysbys<br>• Cwmnïau gwahanol sydd prin yn cydweithio<br>• Dim ond un ddistyllfa fasnachol sydd yng Nghymru ar hyn o bryd felly nid oes llawer o arbedion maint - anoddach cynhyrchu am bris isel |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| • Mae hunaniaeth genedlaethol Gymreig gref yn darparu marchnad ddomestig ar gyfer brandiau Cymreig<br>• Mae cyfleoedd yn dal i fodoli ar gyfer cynhyrchion rhanbarthol mewn rhai sectorau (e.e. cynhyrchion wedi'u cymysgu eisoes)<br>• Datblygu galluoedd pacio a cheisio datblygu'r farchnad ddiodydd ar gyfer gwirodydd wedi'u cymysgu eisoes<br>• Datblygu cynnyrch mwy fforddiadwy ar gyfer defnyddwyr Cymreig carcus<br>• Datblygu mwy o gynnyrch a manteisio'n llawn ar dueddiadau allweddol y farchnad, e.e. fodca â chyflasyn ac apelio at ddefnyddwyr iau | • Cwmnïau gwirodydd rhyngwladol mawr â brandiau cryf a chyllidebau marchnata sylweddol i wario uwchben ac islaw'r llinell gan gymryd cyfran uwch o'r gwerthiant<br>• Rhwystrau mawr i fynediad sy'n atal cwmnïau rhag cael mynediad i'r sector |

**Uwchgynhadledd Diodydd Cymru**

3.20 Yn ystod hydref 2011, llywyddodd Alun Davies AC, Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd Uwchgynhadledd Diodydd cyntaf Cymru yn y Canolbarth. Daeth cynrychiolwyr o'r diwydiant iddi a bu'r digwyddiad yn gyfle i'r Llywodraeth ymgysylltu'n uniongyrchol â'r diwydiant. Dyma oedd amcanion yr Uwchgynhadledd:

- Deall y problemau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r diwydiant diodydd yng Nghymru.
- Dechrau casglu data sylfaenol ar gyfer y sector er mwyn monitro a gwerthuso.
- Gweithio gyda'n gilydd i ganfod ffyrdd o fynd i'r afael â phroblemau sy'n benodol i'r diwydiant a manteisio ar gyfleoedd.
- Cael y diwydiant a'r llywodraeth i gytuno ar ffordd ymlaen.
- Annog rhwydweithio yn y diwydiant.
- Cyfle i'r diwydiant leisio barn a dylanwadu ar ddyfodol y diwydiant.
- Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer diwydiant diodydd Cymru.

# Pennod 4 – Cyfleoedd ar gyfer y Sector

4.1 Mae gan y diwydiant diodydd alcohol yng Nghymru sawl mantais gadarnhaol a chyfleoedd niferus i fanteisio arnynt. Gyda'r diwydiant yn mabwysiadu dull entrepreneuraidd, a gyda chymorth priodol gan y Llywodraeth, gallai cynhyrchwyr diodydd Cymru brofi cynnydd cynaliadwy. Bydd y cynnydd hwn yn fwy fyth wrth i enw da Cymru fel cenedl fwyd a diod barhau i dyfu, yn y DU ac mewn marchnadoedd allforio.

4.2 Gwelwyd sawl cyfle wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn a allai gael eu defnyddio orau gan y diwydiant. Yn gryno, mae'r cyfleoedd yn cynnwys:

- Cynyddu'r wybodaeth am y farchnad a'r diwydiant.
- Cael mynediad i farchnadoedd.
- Brandio.
- Marchnata.
- Cyngor technegol a chynhyrchu.
- Cydweithio.
- Sicrhau nad yw deddfwriaeth yn rhoi cynhyrchwyr Cymru dan anfantais.

Yn ogystal â'r cyfleoedd i'r diwydiant yn ei gyfanrwydd, mae yna hefyd gyfleoedd sy'n benodol i bob sector, a nodir y rhain yn ddiweddarach yn y bennod hon.

**Cynyddu'r Wybodaeth am y Farchnad a'r Diwydiant**

4.3 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae prinder o ddata llinell sylfaen ar gyfer diwydiant diodydd Cymru. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn ceisio casglu'r wybodaeth hon ynghyd, e.e. nifer cywir y cynhyrchwyr a chyfaint cynhyrchu cywir, a chreu cyfleoedd i ddatblygu strategaethau pellach gan y diwydiant a'r llywodraeth. Bydd cael gafael ar ddata cynhwysfawr a chywir yn ein galluogi i werthuso cyfnod gweithredu'r cynllun gweithredu hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn data marchnata ar gyfer y sianeli ar-fasnach ac all-fasnach wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn. Mae dadansoddi'r data hwn wedi rhoi dealltwriaeth werthfawr o'r diwydiant ac wedi ei gwneud yn bosibl i'r cynllun gweithredu hwn gael ei seilio ar ddealltwriaeth fesuradwy o'r farchnad.

Mae'n hanfodol bod gan y sector ddata am y farchnad, am ei fod yn gallu dangos cyfleoedd a bygythiadau yn y farchnad. Fel rhan o'r gwaith o fonitro a gwerthuso'r cynllun gweithredu hwn, byddwn ni'n ceisio diweddaru'r data bob blwyddyn er mwyn gwneud yn siŵr bod gan gynhyrchwyr ddealltwriaeth o'r newidiadau allweddol sy'n digwydd yn y farchnad.

**Cael Mynediad i Farchnadoedd**

4.4 Mae llwybr y diwydiant diodydd i'r farchnad yn gymhleth a llawn her. Mae'r broses hon yn llai cymhleth i gynhyrchwyr sy'n canolbwyntio ar y marchnadoedd gwerthu'n lleol ac yn uniongyrchol i ddefnyddwyr. I gynhyrchwyr eraill, mae cael mynediad effeithiol i'w marchnadoedd targed wedi bod yn rhwystr mawr i'w datblygiad.

I gynhyrchwyr llai heb ddigon o werthiant, ac adnoddau a phrofiad i ddatblygu busnes, gallant dreulio llawer gormod o amser yn ceisio cael mynediad i farchnadoedd. Fodd bynnag, ni all cynhyrchwyr ddatblygu heb y marchnadoedd.

Mae'n amlwg hefyd nad oes gan bob cynhyrchydd brofiad o werthu, yn arbennig y rhai o gefndir cynhyrchu, ac mae'n bosibl nad oes gan rai busnesau'r sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu gwerthiant a busnes yn effeithiol.

Mae'r diwydiant ei hun wedi nodi nifer o ffyrdd posibl i gynyddu gwerthiant a helpu i wneud marchnadoedd yn haws eu cyrraedd. Dyma'r cyfleoedd:

i. ***Cyfeirlyfr dosbarthwyr/cyfanwerthwyr***: datblygu cyfeirlyfr cyfredol sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol, fel manylion cyswllt a'u dalgylch daearyddol.

ii. ***Cael mynediad i fanwerthwyr y DU***: cymorth a hyfforddiant sy'n galluogi cynhyrchwyr i ddeall gofynion manwerthwyr a'r ffordd fwyaf effeithiol o gysylltu â phrynwyr.

iii. ***Cael mynediad i ar-fasnach y DU:*** cymorth i gynhyrchwyr sydd eisiau cael mynediad i ar-fasnach y DU.

iv. ***Y gadwyn gyflenwi:*** datblygu cadwyn gyflenwi cost effeithiol i alluogi cynhyrchwyr i gael mynediad i farchnadoedd proffidiol. Er bod yna rai atebion cadwyn cyflenwi ar gael eisoes, mae angen gwell dealltwriaeth o'r dewisiadau sydd ar gael a datblygu atebion sy'n ateb y gofynion (e.e. canolfan).

v. ***Marchnadoedd allforio:*** mae marchnadoedd allforio wedi'u nodi fel marchnadoedd posibl pwysig, a byddai cynhyrchwyr yn elwa o gael cymorth personol i ddeall y cyfleoedd a'r ffordd orau o fanteisio arnynt. Mae hyn ar gael eisoes drwy Lywodraeth Cymru, ond rhaid gwneud mwy o waith i godi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth hon ar draws y sector diodydd[38].

Bydd y Rhaglen Datblygu Masnach a ddatblygwyd ochr yn ochr â'r cynllun gweithredu hwn yn helpu cynhyrchwyr a phroseswyr i fanteisio ar lawer o'r cyfleoedd sydd wedi'u nodi. Bydd yn canolbwyntio'n arbennig ar gyfleoedd i gael 'Mynediad i'r Farchnad'.

---

38 http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/foodandfisheries/foodandmarketdevelopmentpubs/exportsupport/?lang=cy.

**Brandio**

4.5 Gan fod brandio'n elfen bwysig o'r diwydiant diodydd, yn arbennig o ran cael mynediad i farchnadoedd rhyngwladol, nodwyd bod angen cymorth i frandio a marchnata ledled y sector. Ceir enghreifftiau ar draws y diwydiant o frandiau diodydd Cymreig sy'n hoelio'r sylw ar silff yr archfarchnad; ar y llaw arall, ceir hefyd enghreifftiau o ddiodydd Cymreig o ansawdd da nad ydynt yn gwireddu eu potensial gwerthu am nad ydynt wedi'u brandio'n effeithiol.

Er mwyn datblygu brand llwyddiannus, mae angen cyfuniad o:

i. Gyllidebau digonol.
ii. Datblygu sgiliau trwy hyfforddi a/neu benodi asiantaeth brandio neu ddylunio.
iii. Sicrhau bod y cynhyrchydd yn gallu rheoli'r broses frandio'n effeithiol.

Efallai bydd angen cynorthwyo cynhyrchwyr mewn un neu fwy o'r meysydd hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod y brand gorau posibl yn cael ei ddatblygu ar gyfer eu cynnyrch.

**Marchnata**

4.6 Mae gan y sector diodydd alcohol gyfraniad pwysig i'w wneud o ran helpu cryfhau delwedd Cymru fel cenedl cynhyrchu bwyd ac fel cyrchfan i dwristiaid. Gall cynhyrchion diod arloesol gyda strategaeth hyrwyddo gyfrifol wella gweithgarwch marchnata arall yng Nghymru. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn ceisio hyrwyddo ansawdd diodydd Cymru yn hytrach na faint o alcohol a yfir.

Mae Cynlluniau Enwau Bwyd Gwarchodedig Ewrop – Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO); Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI); a Gwarant Arbenigedd Traddodiadol (TSG), yn darparu system ar gyfer diogelu enwau bwydydd yn ddaearyddol ac ar sail ryseitiau traddodiadol. Mae cynhyrchwyr sy'n cofrestru'u cynhyrchion i'w hamddiffyn yn elwa o gael mwy o ymwybyddiaeth o'u cynnyrch ledled Ewrop. Gall hyn, yn ei dro, eu helpu i fanteisio ar ymwybyddiaeth gynyddol defnyddwyr o bwysigrwydd cynhyrchion bwyd a diod rhanbarthol ac arbenigol. Mae yna gyfleoedd i gynhyrchion Cymreig geisio cael yr amddiffyniad hwn, fel y mae Cymdeithas Perai a Seidr Cymru wedi'i wneud.

Mae Gwobrau 'Cymru: y Gwir Flas' Llywodraeth Cymru eisoes yn gwneud cyfraniad mawr at godi proffil enillwyr y categorïau diodydd. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010 - 2020 yn ceisio mabwysiadu dull cydweithredol o hyrwyddo bwyd a diod mewn perthynas â thwristiaeth yng Nghymru. Mae'r dull hwn yn ceisio cynorthwyo'r diwydiant trwy godi proffil diodydd Cymru yn y gobaith o gynyddu gwerthiant.

Yn lleol, bydd cefnogi gwyliau bwyd a diod yn parhau i fod o fudd i gynhyrchwyr sy'n manteisio ar y cyfleoedd hyn i werthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid a chodi proffil eu cynhyrchion unigol.

4.7 Mae'n bwysig bod unrhyw farchnata a wneir ar draws y diwydiant diodydd yn cefnogi dull synhwyrol o yfed alcohol, gan helpu i leihau'r risgiau o yfed mwy o alcohol na'r canllawiau a argymhellir. Dylai unrhyw hysbysebu a marchnata gefnogi yfed synhwyrol ac ni ddylai dargedu plant a phobl ifanc. Ym mis Mai 2007, daeth Llywodraeth y DU a'r diwydiant i gytundeb ynghylch cynllun gwirfoddol ar gyfer labelu diodydd alcohol, gan gynnwys gwybodaeth am unedau ac iechyd, ac mae hyn wedi'i atgyfnerthu gan Gytundeb Cyfrifoldeb diweddar Llywodraeth y DU. Cytunwyd yn wirfoddol i gynnwys pum elfen ar y rhan fwyaf o labeli alcohol:

- Cyngor Prif Swyddog Meddygol y DU ar unedau yfed synhwyrol.
- Cynnwys alcohol mewn unedau.
- Rhybudd am yfed tra'n feichiog.
- Neges ar yfed yn synhwyrol (e.e. 'Yfwch yn gyfrifol').
- Logo Drinkaware.

O ran yr agwedd hon ar farchnata, mae Llywodraeth Cymru wedi ffafrio dull cydweithredol ledled y DU yn gyson mewn perthynas â deddfwriaeth i gynnwys gwybodaeth am iechyd ac unedau ar labeli alcohol. Gallai diwydiant diodydd Cymru gymryd yr awenau a hyrwyddo'r agenda hon.

**Cymorth Technegol**

4.8 Mae tair Canolfan Fwyd Llywodraeth Cymru[39] yn darparu cymorth ardderchog i lawer o gynhyrchwyr bwyd Cymru. Mae cynhyrchu rhai diodydd alcohol, fel gwin, yn broses arbenigol iawn, ac ychydig iawn o gymorth ymchwil a datblygu sydd ar gael i gynhyrchwyr Cymru ar hyn o bryd. I'r cwmnïau hynny a ystyrir yn gymwys i gael cymorth, gall y Canolfannau Bwyd ddarparu cymorth mewn sawl ffordd, o grantiau *(os ydynt ar gael ac yn berthnasol)* i ddatblygu cynnyrch newydd, a chymorth technegol. Fodd bynnag, rhaid gwneud mwy o waith i godi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth hon ledled y diwydiant diodydd.

Gallai'r diwydiant elwa ar gymorth technegol ychwanegol fel a ganlyn:

i. Datblygu cynnyrch gwell ag ansawdd mwy cyson.
ii. Gwell arbedion effeithlonrwydd.
iii. Achrediadau technegol.
iv. Rhwydwaith arloesi.

Mewn gwledydd sydd â diwydiant diodydd mwy sydd wedi hen sefydlu, mae yna seilwaith o gymorth technegol. Er enghraifft, mae Canolfan Ryngwladol ar gyfer Bragu a Distyllu, Prifysgol Herriot Watts[40] yn yr Alban yn rhoi cymorth i ddiwydiant yr

[39] http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/foodandfisheries/supportforfoodproducers/foodcentres/?lang=cy.
[40] http://www.sls.hw.ac.uk/research/international-centre-for-brewing-distilling.htm.

Alban (a chymorth cenedlaethol), tra bo diwydiant gwin California wedi elwa'n sylweddol o gael Adran Winwyddaeth a Gwineg ym Mhrifysgol California, Davis[41].

Byddai cymorth technegol yn fuddiol iawn i'r cwmnïau hynny sydd yn y camau datblygu cyntaf a'r rhai sy'n ceisio gwella safonau a datblygu cynhyrchion newydd. Yn aml, gall adnoddau technegol fod yn ddrud ac yn anodd cael gafael arnynt a gallai'r ddarpariaeth a geir gan y Canolfannau Bwyd fod yn fanteisiol tu hwnt i gynhyrchwyr diodydd Cymru.

**Cydweithio**

4.9 Amcangyfrifir mai Busnesau Bach a Chanolig yw'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr diodydd Cymru. Mae'r cwmnïau hyn yn cystadlu'n uniongyrchol yn erbyn rhai o gwmnïau mwyaf y byd. Gallai cydweithio gynnig rhai manteision mawr a fyddai'n ddefnyddiol i gynhyrchwyr llai o faint. Gallai manteision cydweithrediad ffurfiol, fel trwy gorff masnachu sy'n cynrychioli buddiannau cynhyrchwyr Cymreig, gynnwys:

i. Un llais mwy pwerus ar gyfer cynigion polisi.

ii. Rhannu costau marchnata.

iii. Arbedion maint (er enghraifft, prynu casys allanol).

iv. Un llais ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus a chysylltiadau â'r cyfryngau.

Yn y sectorau gwin a chwrw ceir naill ai cymdeithasau anffurfiol (Cymdeithas Bragwyr Annibynnol Cymru (AWIB[42]) neu is-grwpiau Cymreig sy'n rhan o sefydliad ar gyfer y DU i gyd (e.e. Mae Cymru'n rhan o ranbarth de-orllewin Cymdeithas Gwinllannau'r DU (UKVA[43])).

Nid oes yna ddull traws-sector o gydweithio yng Nghymru, ond yn yr Iwerddon, mae'r *Alcohol Beverage Federation of Ireland* (ABFI[44]) yn sefydliad ambarél sy'n cynrychioli'r sectorau cwrw, gwin, seidr a gwirodydd. Ei brif nod yw datblygu cynigion polisi ar gyfer y diwydiant, ac mae hefyd yn darparu gwybodaeth am y farchnad.

Mae Cymdeithas Perai a Seidr Cymru[45] yn enghraifft ardderchog o gydweithrediad sydd wedi helpu i ddatblygu'r diwydiant trwy gymell cydweithrediad rhwng yr aelodau i wella'u cynhyrchu, eu marchnata, eu lobïo a'u dulliau o ddarparu gwybodaeth. Gallai nifer cymharol fach o gynhyrchwyr masnachol, a mwy o wneuthurwyr seidr rhan-amser, fod wedi gwneud cydweithrediad yn haws yn y sector hwn, gan fod yna lai o gystadleuwyr masnachol uniongyrchol. Ar y llaw arall, gallai fod yn fwy anodd i efelychu'r lefel hon o gydweithrediad yn y sector bragu.

Er gwaethaf y posibilrwydd y gallai rhai o'r cynhyrchwyr mwy masnachol fod yn gyndyn i gyfrannu'n llawn, gallai fod yn fuddiol i'r diwydiant sefydlu dull mwy cydweithredol, naill ai o fewn pob sector neu ar draws holl sectorau'r diwydiant.

---

41 http://wineserver.ucdavis.edu/.
42 http://www.awib.org.uk/main.html.
43 http://www.ukva.org.uk/.
44 http://www.abfi.ie/Sectors/ABFI/ABFI.nsf/vPages/Home?OpenDocument.
45 http://www.welshcider.co.uk/index.php?option=com_frontpage&Itemid=1.

**Polisi a Deddfwriaeth**

4.10 Mae nifer o faterion polisi a deddfwriaeth wedi dod i'r golwg wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn.

- Isafswm prisiau ar gyfer alcohol.
- Tollau cwrw, gwin a seidr.
- Lefelau trothwy trethu cynhyrchwyr.
- Thafarnau clwm.
- Cynllunio.

Ni all Gweinidogion Cymru fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn eu hunain. Byddai'n rhaid mabwysiadu dull trawsadrannol o weithio er mwyn datblygu materion i gynorthwyo'r diwydiant diodydd.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bwriad i gyflwyno gwaharddiad sy'n atal gwerthu alcohol am lai na'r gost o'i gynhyrchu. Er bod unrhyw fenter sy'n ceisio mynd i'r afael â'r holl alcohol rhad sydd ar gael yn gam cadarnhaol, mae'n debyg mai effaith gyfyngedig y byddai gwaharddiad o'r fath yn ei chael ar werthiant am brisiau is na chost tollau cartref a TAW. Mae Llywodraeth Cymru'n dal i gredu y byddai'n well mynd i'r afael â'r gormodedd o alcohol rhad sydd ar gael trwy gyflwyno isafswm prisiau wedi'i osod ar lefel a fydd yn cael effaith ar yfed ormodol.

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r sectorau bwyd a diod, mae tollau'n effeithio ar y diwydiant diodydd sy'n cael effaith sylweddol ar brisiau gwerthu. Mae'r tollau'n amrywio yn ôl y math o ddiod a chryfder yr alcohol.

Newidiwyd y tollau ddiwethaf ym mis Hydref 2011, ac roedd rhai o'r newidiadau'n ymgais i ddefnyddio tollau fel offeryn polisi i annog yfed mwy cyfrifol. Er enghraifft, mae'r doll ar gyfer cwrw cryfach (gyda chyfaint alcohol o fwy na 7.5% (abv)) wedi cynyddu fel y dangosir isod[46]:

46 http://customs.hmrc.gov.uk/channelsPortalWebApp/channelsPortalWebApp.portal?_nfpb=true&_pageLabel=pageExcise_ShowContent&id=HMCE_PROD1_031160&propertyType=document.

| Cyfradd £ fesul canran hectolitr o alcohol yn y cwrw | | |
|---|---|---|
| | **Cyfradd o 28/3/2011** | **Cyfradd o 1/10/2011** |
| **Cwrw – Tollau Cwrw Cyffredinol** | 18.57 | 18.57 |
| **Cwrw – Cryfder uwch:** Mwy na 7.5% abv – **yn ychwanegol** i'r Doll Gwrw Gyffredinol | Dim | 4.64 |
| **Cwrw – Cryfder is:** Mwy nag 1.2% - dim mwy na 2.8% abv | Dim | 9.29 |

Bydd lefelau'r tollau ar gyfer seidr, perai a gwin pefriol yn anfanteisiol i lawer o gynhyrchwyr Cymru sydd â chynnyrch a fydd yn destun lefelau tollau uwch na chynhyrchwyr sy'n cynhyrchu diodydd cyfwerth nad ydynt yn befriol. (Er enghraifft, mae'r tollau ar gyfer seidr pefriol 6% abv chwe gwaith yn uwch na'r tollau a roddir ar seidr cyfwerth nad yw'n befriol[47]).

Fodd bynnag, mae cynhyrchwyr rhai cynhyrchion seidr a pherai llonydd yn gorfod talu trethi cynhyrchion pefriol:

a) Os oes gan y cynhwysydd bwysedd gormodol o ganlyniad i garbon deuocsid mewn sylwedd o 3 bar neu fwy neu.

b) Os oes gan y cynhwysydd gaead madarch wedi'i glymu â chwlwm neu ffasnin – beth bynnag fo'r pwysedd[48].

| Cyfradd £ fesul hectolitr o gynnyrch | | |
|---|---|---|
| | **Cyfradd o 28/3/2011** | **Cyfradd o 1/10/2011** |
| **Seidr a pherai llonydd:** Mwy na 1.2% – dim mwy nag 7.5% abv. | 35.87 | 35.87 |
| **Seidr a pherai llonydd:** Mwy na 7.5% – llai na 8.5% abv. | 53.84 | 53.84 |
| **Seidr a pherai pefriol:** Mwy na 1.2% – dim mwy na 5.5% abv. | 35.87 | 35.87 |
| **Seidr a pherai pefriol:** Mwy na 5.5% – llai na 8.5% abv. | 233.55 | 233.55 |

47 http://customs.hmrc.gov.uk/channelsPortalWebApp/channelsPortalWebApp.portal?_nfpb=true&_pageLabel=pageExcise_ShowContent&id=HMCE_PROD1_031160&propertyType=document.

48 http://www.uk-customs-tariff.co.uk/content/contentlist/volume/vol1_12.pdf.

Yn 2002, cyflwynwyd toll cwrw cynyddol i fragwyr annibynnol, ac mae'r egwyddor o godi llai o dollau ar fragwyr sy'n cynhyrchu llai na 60,000 hectolitr yn dal yn gymwys heddiw. Mae hyn wedi bod yn gymhelliant arwyddocaol i fragwyr llai ddechrau busnesau ac mae wedi cyfrannu'n fawr at adfywiad bragwyr annibynnol traddodiadol.

Gall Gweinidogion Cymru wneud cynrychioliadau i Lywodraeth y DU o dan adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 o ran tollau cwrw, gwin a seidr. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio ochr yn ochr â'i chydweithwyr yn y DU i fynd i'r afael â hyn.

Mae'r 'cwlwm cwrw' wedi'i grybwyll fel problem i'r sector hefyd. Y 'cwlwm cwrw' yw pan gaiff diodydd a ddewisir ac a werthir gan dafarnau unigol mewn cadwyni neu grwpiau eu cyfyngu i rai sydd ar restr benodol. Er nad yw polisi cystadleuaeth wedi'i ddatganoli, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau sy'n ymwneud â'r cwlwm cwrw. Dylid nodi bod y Swyddfa Masnachu Teg wedi penderfynu cyn hyn nad oedd y cwlwm cwrw'n wrth-gystadleuol ac nad oedd yn cyfyngu ar y gystadleuaeth. Yn ogystal â hyn, mae'r cynnig i gyflwyno 'hawl i werthu cwrw neu seidr a gynhyrchwyd yn lleol' yn peri anawsterau cyfreithiol oherwydd gallai cynnig o'r fath gael ei ystyried fel un sy'n torri cyfraith yr UE o ran masnach, gwrth-gystadleuaeth a gwahaniaethu.

Mae cynllunio'n fater sy'n codi dro ar ôl tro mewn rhai rhannau o'r sector. Yn ystod yr uwchgynhadledd diodydd a gynhaliwyd yn 2011, nododd tyfwyr gwin bod angen adeiladu Gwinfeydd yng Nghymru er mwyn ychwanegu gwerth a chynyddu gallu prosesu'r sector diodydd. Nododd cynhyrchwyr y gall gwahanol awdurdodau cynllunio lleol fod yn defnyddio dulliau anghyson i bennu'r amgylchiadau lle byddai angen caniatâd cynllunio i ddatblygu yn y sector hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu ei pholisïau cynllunio o ran datblygiad economaidd er mwyn sicrhau y bydd yn gallu bodloni dyheadau'r llywodraeth i sicrhau adferiad economaidd yng Nghymru.

Yn ogystal â hyn, mae grŵp cynghori annibynnol wedi'i sefydlu fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Bil Cynllunio sydd i'w gyflwyno yn 2015 i adolygu ac ystyried y dewisiadau ynglŷn â sut i ddarparu'r system gynllunio yn y dyfodol.

Bydd yr adolygiad yn ystyried ac yn gwneud argymhellion ar:

- Yr opsiynau ar gyfer darparu'r system gynllunio yn y dyfodol, gan gynnwys dull a ffefrir.
- Y canllawiau deddfwriaeth a pholisi sydd eu hangen i gyflwyno'r opsiynau a'r dull a ffefrir.
- Asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno'r opsiynau a'r dull a ffefrir – bydd hyn yn cynnwys nifer y staff a chostau.
- Gwelliannau y gellir eu rhoi ar waith yn gyflym ac yn hawdd.

Bydd ymateb mewnol gan yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS) yn cael ei gyflwyno yn yr ymgynghoriadau cynllunio hyn. Bydd yr ymateb

hwn yn ystyried y materion a nodwyd yn uniongyrchol gan gynrychiolwyr o'r diwydiant diodydd yn ystod hydref 2011.

**Cyfleoedd sy'n Benodol i'r Is-Sectorau**

Mae gan y pedwar is-sector gyfleoedd penodol fel y nodir isod:

### 4.11 Cyfleoedd Cwrw a Lager

| Cyfle | Camau Gweithredu Arfaethedig sydd eu hangen |
|---|---|
| **Mwy o allu i botelu yng Nghymru** | Gwerthuso'r achos busnes posibl dros fuddsoddi mewn mwy o allu potelu. |
| **Nid oes gan rai archfarchnadoedd ddetholiad gynhwysfawr o gwrw Cymreig** | Trafod gyda'r manwerthwyr gyda'r nod o drefnu digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr ar gyfer bragwyr Cymru. |
| **Cydweithio rhwng bragwyr i leihau costau gweithgynhyrchu a dosbarthu** | Y diwydiant i gael gafael ar sefydliadau sy'n bodoli eisoes fel Cymdeithas Annibynnol Bragwyr Cymru (AWIB). |
| **Cynlluniau Sicrhau Ansawdd** | Y diwydiant i weithio gyda'r Canolfannau Bwyd i sicrhau bod cynhyrchion o ansawdd da yn cael eu datblygu ac ar gael i'r farchnad. |

### 4.12 Cyfleoedd Seidr a Pherai

| Cyfle | Camau Gweithredu Arfaethedig sydd eu hangen |
|---|---|
| **Annog y diwydiant i ddefnyddio sefydliadau diwydiant cyfredol fel Cymdeithas Perai a Seidr Cymru (WPCS)** | Llywodraeth Cymru a'r diwydiant i weithio gyda'i gilydd i godi proffil a hyrwyddo manteision ymuno â'r sefydliadau hyn. |
| **Mae perai'n wahaniaeth allweddol posibl ar gyfer y diwydiant yng Nghymru gan fod perai yn cyfrif am oddeutu 15% o'r seidr/perai a gynhyrchir yng Nghymru** | Parhau i ganolbwyntio ar gynhyrchu, brandio a marchnata perai er mwyn cryfhau proffil perai Cymru. |
| **Datblygu seidrau a pherai mewn poteli i ategu diodydd a dynnir â llaw** | Posibilrwydd o gynnwys seidr a pherai yn y gwerthusiad arfaethedig o'r achos busnes er mwyn cael mwy o allu potelu. |

### 4.13 Cyfleoedd Gwirodydd

| Cyfle | Camau Gweithredu Arfaethedig sydd eu hangen |
|---|---|
| **Diodydd wedi'u cymysgu ymlaen llaw â gwirodydd yw un o sectorau'r farchnad gwirodydd sy'n tyfu gyflymaf** | Rhoi cymorth i'r rhai yn y diwydiant sy'n ceisio datblygu cynhyrchion newydd yn y categori hwn. Gallai'r Canolfannau Technoleg Bwyd ddarparu hyn. |

### 4.14 Cyfleoedd Gwin

| Cyfle | Camau Gweithredu Arfaethedig sydd eu hangen |
|---|---|
| **Mae yna brinder gallu prosesu yn y diwydiant gwin yng Nghymru ar hyn o bryd** | Gwerthuso'r achos busnes dros gael gwindy yng Nghymru. |
| **Annog mwy o fusnesau i ddefnyddio Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO) neu Ddynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) ar gyfer gwin Cymreig** | Y diwydiant i ystyried gwneud cais am statws PDO neu PGI. |
| **Mae gwin pefriol yn faes arbennig o gryf yn niwydiant gwin Cymru a gellir ei ddatblygu ymhellach** | Gallai gwin pefriol fod yn ganolbwynt pwysig i ddatblygu a marchnata cynnyrch. Y diwydiant i weithio gyda'r Canolfannau Bwyd i fynd i'r afael â'r posibiliadau hyn. |
| **Cynlluniau Sicrhau Ansawdd** | Ystyried rhinweddau cael achrediad ansawdd ar gyfer gwin Cymreig. |

## Pennod 5 – Camau Gweithredu

| **Mater Allweddol** | **Cam Gweithredu Arfaethedig** | **Arweinydd** | **Camau gweithredu sydd eu hangen gan Lywodraeth Cymru** |
|---|---|---|---|
| **Cynyddu gwerthiant allforio cynhyrchion diodydd Cymru**<br><br>Cyfleoedd i gynyddu'r allforion ledled y diwydiant, ond mae cynhyrchwyr llai wedi nodi bod yna ddiffyg adnoddau. | Mae angen cymorth ar fusnesau i ddod o hyd i fasnach allforio posibl a manteisio ar hynny. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Datblygu Bwyd a'r Farchnad (FMDD) | FMDD i fynd ati i hyrwyddo Rhaglen Cefnogi Allforion y Sector Bwyd a Diod i'r diwydiant diodydd. |
| **Materion Cynllunio**<br><br>Nododd y diwydiant bryder ynghylch anghysondebau posibl ar draws Awdurdodau Lleol (yn arbennig wrth bennu a fyddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu o fewn y sector hwn a arweinir yn rhannol gan amaeth). Gallai hyn fod yn rhwystr posibl i dwf o fewn y diwydiant. | Mae angen adolygu polisïau cynllunio presennol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cysondeb ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Y diwydiant i gyflwyno unrhyw enghreifftiau yng Nghymru i'r Llywodraeth. | Llywodraeth Cymru | FMDD i fynd ar drywydd unrhyw enghreifftiau yng Nghymru a nodwyd gan y diwydiant.<br><br>Dylai unrhyw ymatebion cydgysylltiedig gan yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS), a gyflwynir i'r ymgynghoriadau cyhoeddus presennol ar gynllunio neu ymgynghoriadau i ddod, gynnwys materion a nodwyd yn uniongyrchol gan gynrychiolwyr o'r diwydiant diodydd yn ystod uwch-gynhadledd diodydd 2011. |

| Mater Allweddol | Cam Gweithredu Arfaethedig | Arweinydd | Camau gweithredu sydd eu hangen gan Lywodraeth Cymru |
|---|---|---|---|
| **Cydweithrediad Ffurfiol ac Anffurfiol**<br><br>Mae angen cydweithio dan arweiniad y diwydiant er mwyn goresgyn y broblem o brinder adnoddau ymhlith cynhyrchwyr bach a rhannu gwybodaeth a sgiliau ymhlith pobl yn y diwydiant. | Defnyddio sefydliadau cyfredol y diwydiant fel rhwydwaith i gynhyrchwyr, proseswyr a manwerthwyr. Bydd hyn yn cynnwys rhannu adnoddau a gwybodaeth fel gofynion technegol, hyfforddiant sgiliau, potelu a hyrwyddo'r diwydiant. Gweithio gyda'n gilydd hefyd i fanteisio ar gyfleoedd yn y farchnad a darparu llais i'r diwydiant. | Diwydiant | Gweithio gyda'r diwydiant i annog busnesau i ymuno â sefydliadau cyfredol sy'n bodoli eisoes, e.e. Cymdeithas Perai a Seidr Cymru (WPCS), Cymdeithas Gwinllannau'r Deyrnas Unedig (UKVA), Cymdeithas Bragwyr Annibynnol Cymru (AWIB). |
| **Gwybodaeth am y farchnad**<br><br>Prinder gwybodaeth a data ynghylch strwythur y sector a chyfleoedd datblygu. | Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer Diwydiant Diodydd Cymru er mwyn rhannu'r ymchwil ddiweddaraf am y farchnad, adolygu gwybodaeth a dod o hyd i gyfleoedd i ddatblygu'r sector. | Llywodraeth Cymru – yr Is-adran Datblygu Bwyd a'r Farchnad | Cynllun gweithredu i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2012. |
| **Ansawdd**<br><br>Mae angen sefydlu ansawdd gwell a chyson ar gyfer diodydd Cymru. | Defnyddio darpariaeth gyfredol y Canolfannau Technoleg Bwyd i gael gafael ar sgiliau cynghori ac ymgynghori. Mae'r rhain yn cynnig gwasanaethau technegol i fusnesau sy'n cychwyn, cwmnïau bach a chanolig a gweithgynhyrchwyr bwyd a diod cyfredol. | Y Diwydiant a Llywodraeth Cymru. | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a'r Farchnad i fynd ati i annog busnesau i ddefnyddio'r ddarpariaeth gyfredol hon. Mae pob un o'r canolfannau hyn yn ymrwymedig i annog datblygiad y sector bwyd a diod. Maen nhw'n ceisio darparu cymorth technegol ac ymarferol ar bob agwedd ar gynhyrchu bwyd a diod, gan gynnwys: |

| Mater Allweddol | Cam Gweithredu Arfaethedig | Arweinydd | Camau gweithredu sydd eu hangen gan Lywodraeth Cymru |
|---|---|---|---|
| | | | • Datblygu cynnyrch newydd.<br>• Deddfwriaeth.<br>• Cynllunio ffatri a gweithle.<br>• Sicrhau ansawdd.<br>• Systemau a gweithdrefnau newydd.<br>• Glanweithdra.<br>• Diogelwch bwyd.<br>• Marchnata. |
| **Marchnata a Brandio**<br><br>Angen cymorth personol ar fusnesau i gyrraedd marchnadoedd eu defnyddwyr targed. | Datblygu cymorth mentora i fusnesau, a fydd yn ei helpu i ganfod cyfleoedd newydd yn y farchnad ledled Cymru a'r DU, a hwyluso'r gwaith o ddatblygu cynhyrchion a brandiau er mwyn sicrhau masnach gyda chwsmeriaid newydd a chyfredol. | Llywodraeth Cymru – yr Is-adran Datblygu Bwyd a'r Farchnad | Mae menter datblygu masnach wedi'i datblygu ar gyfer y diwydiant diodydd ochr yn ochr â'r cynllun gweithredu hwn. |
| **Polisi a Deddfwriaeth**<br><br>Llywodraeth Cymru i barhau i fynd i'r afael â materion polisi (a) trawsadrannol a (b) heb eu | Mae angen ffordd drawsadrannol o weithio rhwng swyddogion polisi, cynllunio, iechyd, camddefnyddio sylweddau a pholisi trethi | Llywodraeth Cymru, gydag awdurdodau lleol a'u cydweithwyr yn y DU | Dull trawsadrannol i gefnogi'r sector. Lle nad yw materion wedi'u datganoli ar hyn o bryd, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda phartneriaid Llywodraeth y DU i fynd |

| **Mater Allweddol** | **Cam Gweithredu Arfaethedig** | **Arweinydd** | **Camau gweithredu sydd eu hangen gan Lywodraeth Cymru** |
|---|---|---|---|
| datganoli. | alcohol er mwyn mynd i'r afael â'r materion canlynol:<br><br>• Canllawiau cynllunio clir a chyson.<br>• Trethi cwrw, gwin a seidr.<br>• Lefelau trothwy trethi cynhyrchwyr.<br>• Tafarnau clwm. | | i'r afael â'r rhain. |

# Pennod 6 – Gweithredu, Monitro a Gwerthuso

6.1 Nododd y bennod flaenorol y gweithgarwch y bwriedir ei wneud o dan y cynllun gweithredu hwn. Bydd yn rhaid cael partneriaethau gweithio agos ledled diwydiant diodydd Cymru er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Dylai rhanddeiliaid ledled y diwydiant, gan gynnwys cynhyrchwyr, proseswyr, cyfanwerthwyr, cwmnïau tafarn, cymdeithasau masnach a'r Canolfannau Technoleg Bwyd fod yn rhan o'r broses hon.

Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r diwydiant, wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad diwydiant diodydd Cymru, a bydd yn gwneud trefniadau i weithredu, monitro a gwerthuso'r cynllun fel rhan o'r cynllun gweithredu hwn.

6.2 Fel rhan o'r gwaith monitro hwn, bydd yr Is-adran Datblygu Bwyd a'r Farchnad yn mesur y cynnydd a wneir ar y camau gweithredu allweddol a nodwyd ym Mhennod 5. Mae hyn yn debygol o gynnwys mesur:

- Faint sy'n manteisio ar y cymorth a ddarperir gan y Rhaglen Cymorth Allforio.
- Faint sy'n manteisio ar y cymorth a ddarperir gan y Canolfannau Technoleg Bwyd.
- Lledaenu gwybodaeth am y farchnad.
- Datblygu sefydliadau masnachu presennol (e.e. Cymdeithas Perai a Seidr Cymru, Cymdeithas Bragwyr Annibynnol Cymru).
- Canlyniadau'r fenter Datblygu Masnach, sy'n cynnwys:
    - Gwella cysylltiadau'r gadwyn gyflenwi.
    - Cynyddu gwerthiant.
    - Lansio cynhyrchion newydd.
    - Gwell perthynas rhwng cynhyrchwyr a phartneriaid masnachu allweddol.
- Llwyddiant cynhyrchwyr a phroseswyr mewn gwobrau ansawdd fel Cymru: y Gwir Flas.

6.3 Gan fod y sector bwyd a diod yn ddiwydiant sy'n newid yn gyflym, mae'n bwysig bod unrhyw waith o fonitro neu werthuso gweithgarwch yn y cynllun gweithredu hwn yn cael ei addasu i fodloni'r amgylchiadau newidiol ac anghenion y diwydiant yn y dyfodol.

6.4 Rhaid i ddiwydiant diodydd Cymru chwarae rhan bwysig o ran cymryd rhan a chyfrannu at lwyddiant y cynllun gweithredu hwn. Ni ellir cyflawni elfennau o'r cynllun gweithredu, fel cydweithio ac ansawdd cynnyrch, heb ymrwymiad gan y sectorau cwrw, gwin, perai, seidr a gwirodydd.

6.5. Mae'r fenter Datblygu Masnach yn elfen bwysig o'r cynllun gweithredu hwn. Mae mentrau datblygu masnach blaenorol sy'n ymwneud â chynhyrchion bwyd wedi llwyddo i greu mwy o werthiant, gwella gweithrediadau busnes a chyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor y cwmnïau sydd wedi cymryd rhan. Rhagwelir y bydd rhwng 8 a 12 cwmni'n cymryd rhan yn y fenter Datblygu Masnach, y bwriadir ei rhoi ar waith ym mis Chwefror 2012. Bydd amcanion penodol yn cael eu gosod ar gyfer y busnesau unigol ac yna'n cael eu monitro i wneud yn siŵr bod y canlyniadau gofynnol yn cael eu cyflawni. Gallai'r amcanion hyn gynnwys mwy o werthiant, gwell proffidioldeb, gwell marchnata a datblygiad cynnyrch newydd.

6.6 Gall y prinder data sylfaenol cyfredol, fel gwerthiant cwmnïau, allbwn cynhyrchu a nifer y gweithwyr ledled y diwydiant oedi'r gwaith o asesu a gwerthuso'r gwelliannau mewn mesurau allweddol yn y tymor byr. Fodd bynnag, bydd bwriad arfaethedig i weithio gyda'r sefydliadau priodol yn y diwydiant yn darparu data sylfaenol y gellir mesur cynnydd y diwydiant yn ei erbyn yn y dyfodol. Y bwriad hefyd fydd monitro'r datblygiad o ran cynnydd mewn cyflogaeth a gwerthiant.

6.7 Bydd Llywodraeth Cymru'n asesu ffyrdd pellach o ddiweddaru data penodol i'r farchnad er mwyn gwerthuso sut mae marchnadoedd diodydd y DU a Chymru wedi datblygu. Mae hyn yn werthfawr o ran galluogi cynhyrchwyr i ddeall y tueddiadau yn y marchnadoedd Ar-fasnach ac All-fasnach, nawr ac yn y dyfodol, a rhoi syniad iddynt o'r newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr yng Nghymru a gweddill y DU yn 2013 a thu hwnt.

6.8 Cafodd yr Uwchgynhadledd Diodydd gyntaf a gynhaliwyd yn hydref 2011 adborth cadarnhaol gan y sawl a aeth iddi a bu'n gyfle i'r diwydiant nodi materion a chyfleoedd ac i ddarparu adborth uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried cynnal digwyddiadau tebyg dan arweiniad y diwydiant yn y dyfodol er mwyn adolygu cynnydd a sicrhau bod y cynllun gweithredu'n parhau i ddiwallu anghenion y diwydiant.

6.9 Bydd datblygu'r sectorau, gan ddefnyddio'r cyfleoedd a'r cymorth a nodwyd, a thrafodaethau parhaus rhwng y sefydliadau partner, y diwydiant a Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y cynllun gweithredu'n cael ei gyflawni'n effeithiol ac yn amserol.

## Geirfa

**ABV –** alcohol yn ôl cyfaint. Er enghraifft, gallai seidr gael ABV o 6.2%.

**AC Nielsen –** cwmni ymchwil i'r farchnad sydd wedi darparu'r data marchnad ar gyfer yr Ar-fasnach.

**All-fasnach –** y sianel fasnach sy'n cynnwys pob man lle gwerthir alcohol i'w yfed "oddi ar y safle". Mae "All-fasnach" yn cynnwys pob manwerthwr, gan gynnwys archfarchnadoedd a siopau trwyddedig.

**Ar-fasnach –** y sianel fasnach sy'n cynnwys pob man lle gwerthir alcohol i'w yfed "ar y safle". Byddai hyn yn cynnwys pob tafarn, bar a chlwb.

**Canolfannau Technoleg Bwyd –** mae yna dair Canolfan Technoleg Bwyd yng Nghymru ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, Llandysul a Choleg Menai yn Llangefni. Mae'r canolfannau hyn yn darparu gwasanaethau technegol amrywiol i ddiwydiant bwyd a diod Cymru, gan gynnwys cymorth i ddatblygu cynnyrch newydd, achredu, ceginau arbrofol a gwasanaethau panel synhwyraidd.

**Kantar –** cwmni ymchwil i'r farchnad sydd wedi darparu'r data marchnad ar gyfer yr All-fasnach.

**Marchnad Alcohol –** at ddibenion y Cynllun Gweithredu hwn, diffinnir y farchnad alcohol fel y marchnadoedd Ar-fasnach ac All-fasnach gyda'i gilydd. Nid yw'n cynnwys unrhyw farchnadoedd diwydiannol neu feddygol ar gyfer alcohol.

**Prif Swyddog Meddygol –** Y Prif Swyddog Meddygol yw prif gynghorydd meddygol Llywodraeth y DU a phennaeth proffesiynol holl staff meddygol Lloegr.

**Siopau Disgownt –** Manwerthwyr yw'r rhain sydd â detholiad llai o nwyddau na'r rhan fwyaf o archfarchnadoedd sydd ag arbedion effeithiolrwydd gweithredol (h.y. siopau di-lol) sy'n galluogi iddynt godi prisiau is ar rai cynhyrchion.

**Tafarnau clwm –** tafarnau yw'r rhain lle cyfyngir ar y dewis o ddiodydd y gellir eu gwerthu gan y bragdy neu'r cwmni sy'n berchen y dafarn.

**Tŷ rhydd –** tafarn lle gall y perchennog ddewis pa ddiodydd a werthir heb unrhyw gyfyngiadau gan fragdy.